

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 51/2012




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd

Adroddiad Interim Terfynol



Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd

ADRODDIAD INTERIM TERFYNOL

Nia Bryer, Old Bell 3 Cyf

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Dr Michael Harmer

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 0628134

E-bost: michael.harmer@wales.gsi.gov.uk

<http://www.cymru.gov.uk/ymchwil>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-0-7504-8636-1

© Hawlfraint y Goron 2013

Tabl Cynnwys

YSTYR ACRONYMAU	2
CRYNODEB GWEITHREDOL	3
1. CYFLWYNIAD	8
1.1 Cefndir	8
1.2 Nod yr Adolygiad	8
1.3 Dull	9
1.4 Strwythur yr Adroddiad yma	10
2. ADOLYGIAD POLISI	11
2.1 Crynodeb o Adolygiad Polisi yr Adroddiad Blwyddyn Gyntaf	11
2.2 Cyd-destun Polisi Presennol Cymru	12
2.3 Polisi cyfredol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r cyd-destun deddfwriaethol.	14
3. CEFNDIR Y PROSIECT	18
3.1 Cyflwyniad	18
4. CANFYDDIADAU	213
4.1 Cyflwyniad	233
4.2 Sylwadau ar Resymeg y Prosiect	23
4.3 Targedau Prosiect a Pherfformiad	28
4.4 Trefniadau Cyflenwi Prosiect	36
4.5 Cefnogaeth Cam Dau	37
4.6 CYLLID SGEI	444
4.7 Datblygiad a Pherfformiad Undebau Credyd	45
4.8 Adborth gan gwsmeriaid undebau credyd	56
4.9 I ba raddau y cafodd argymhellion Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf eu gweithredu	5959
4.10 I ba raddau y mae'r Prosiect yn cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd	600
5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION	67
Atodiad 1: Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy	73

YSTYR ACRONYMAU

WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
SGEI	Cytundebau Ariannu Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol
TSIB	Y Busnes Buddsoddi Cymdeithasol
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
FSA	Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
LASA	Loans and Savings Abertawe
ABCUL	Cymdeithas Undebau Credyd Prydeinig Cyf
ACE	Undebau Credyd i Bawb
UWIC	Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd
PEARLS	Protection, Effective Financial Structure, Rates of Return, Liquidity, and Signs of Growth
CUCA	Cyfrif Cyfredol Undebau Credyd

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (y cyfeirir ato fel y Prosiect Undebau Credyd) am y tro cyntaf yn Ebrill 2009, ac yn ystod ei gam cyntaf dechreuol darparwyd £1.9 miliwn o gyllid (cyfalaf a referiw) drwy Lywodraeth Cymru a chyllid rhanbarth Cydgyfeirio yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi ehangu a chynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru. Sicrhawyd gwasanaethau Canolfan Cydweithredol Cymru gan Lywodraeth Cymru i weinyddu'r cronfeydd undebau credyd a darparu cefnogaeth i'r sector.

Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod y prosiect a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd un ai wedi cyflawni neu ragori ar bedwar o'r pum targed a osodwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ond iddo fethu cyrraedd y targed olaf sef cefnogi 2,847 o unigolion i gael mynediad i wasanaethau ariannol. Y prif heriau a ddynodwyd yn ystod ein gwerthusiad o gam un oedd y datgysylltiad rhwng targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, Cynllun Busnes WEFO a thargedau contractiol undebau credyd, yn ogystal â'r diffyg cysondeb yn nhermau diffinio targedau a ariannwyd gan WEFO.

Mae'r prosiect ar hyn o bryd hanner ffordd drwy ei ail gam (Hydref 2010 hyd Ragfyr 2013) a chaiff ei ariannu gydag ychydig dan £3.5 miliwn (gyda £1.88 miliwn o hyn yn gyllid yr UE). Ei nod yw 'cefnogi datblygu mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithlon yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth ariannol ansawdd uchel hygyrch, fforddiadwy a chyfartal, a all gyflawni anghenion holl ddinasyddion Cymru, ac yn arbennig y rhai sydd yn yr angen mwyaf.'¹

Caiff 17 undeb credyd eu cefnogi gan y prosiect ar hyn o bryd drwy Gytundebau Ariannu Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol (SGEI) ac

¹ Cynllun Busnes Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (Ail Gam) a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynwyd i WEFO (Rhif Achos 806617) Tudalen 3.

mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi gosod gweinyddu cytundebau ariannu cam dau ar gontract yn ogystal â darparu cefnogaeth i'r sector undebau credyd yng Nghymru i TSIB (Y Busnes Buddsoddi Cymdeithasol).

Methodoleg

Mae'r adroddiad interim yma'n seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2012 oedd yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cynllunio gyda'r Grŵp Llywio Gwerthuso i gytuno ar raglen waith y cam interim;
- diweddarau'r adolygiad llenyddiaeth o bolisi a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a Chymru;
- adolygu dogfennau cyflenwi a data monitro cam dau y prosiect;
- adolygu data ariannol a pherfformiad undebau credyd Cymru;
- datblygu offerynnau ymchwil a chynnal ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid;
- cynnal ymweliadau manwl i wyth undeb credyd a hwyluso grŵp ffocws gydag aelodau Grŵp Cydlynu Undebau Credyd Cymru-gyfan;
- cynnal cyfweiliadau gyda thri Undeb Credyd 'rheoli' nad oeddent yn cymryd rhan yn y prosiect.

Canfyddiadau

Canfu ein hymchwil fod y cyd-destun polisi yng Nghymru ar gyfer undebau credyd yn parhau'n gefnogol, er bod gweithredoedd a phenderfyniadau diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu'r drafodaeth os mai ffocws y disgwyliadau ar gyfer y sector yw darparu gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgau yn hytrach na datblygu sector undebau credyd hunangynaliadwy - a ph'un ai oes gwrthdaro rhwng y ddau nod. Daeth yr anawsterau sydd ynghlwm â dilyn y ddau amcan hyd yn oed yn bwysicach i undebau credyd wrth iddynt ddechrau ar flwyddyn olaf eu cytundebau cyllido SGEI - gyda nifer yn awr yn wynebu penderfyniadau hollbwysig ar ba lwybr i'w ddilyn o gofio bod cyllid ar ôl 2013 yn edrych yn annhebyg.

Rydym o'r farn fod angen i Lywodraeth Cymru egluro ei pholisi yn hyn o beth ac awgrymwn os mai'r nod polisi hirdymor yw darparu gwasanaethau ariannol i

unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol, yna fod dadl gref dros barhau i roi cyllid i ddigolledu am ddarparu gwasanaethau o'r fath. Os (un ai yn lle neu yn ogystal â'r nod o ddarparu gwasanaethau i rai sydd wedi eu hallgau'n ariannol) yw Llywodraeth Cymru yn dal i fod ag ymrwymiad i adeiladu undebau credyd ariannol gynaliadwy fel nod polisi cyhoeddus, yna credwn y bydd angen iddi fabwysiadu dull gweithredu gwahanol ac ar wahân i ddarparu cyllid craidd i undebau credyd yn y dyfodol.

Er y gwrthdaro yn y materion polisi hyn rydym o'r farn fod y prosiect yn gwneud cyfraniad rhesymol at ddatblygu mudiad undebau credyd cryf ac effeithlon yng Nghymru. Bu twf iach mewn aelodaeth undebau credyd a hefyd yn y sylfaen asedau yng Nghymru fel canlyniad uniongyrchol i gyllid y prosiect ac mae'r prosiect yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei dargedau a ariennir gan WEFO ar gyfer yr ardal Cydgyfeirio. Mae i'w longyfarch ar ei lwyddiant yn rhagori ar darged mwyaf uchelgeisiol WEFO o recriwtio 7,500 o aelodau sydd wedi eu hallgau'n ariannol - yn wir, mae wedi denu 9,016 o oedolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol ynghyd â 3,449 arall o aelodau ifanc hyd yma.

Fodd bynnag, mae perfformiad undebau credyd unigol wrth gyflawni eu hoblygiadau cyllid SGEI yn amrywio'n sylweddol. Bu gwelliannau mewn llywodraethiant a gweithrediadau busnes undebau credyd ond mae'n parhau'n wir fod llawer o amrywiaeth mewn perfformiad undebau credyd yn y cyswllt hwn. Yn gyffredinol, mae undebau credyd yn dal yn wan yn nhermau eu strwythurau ariannol (benthyciadau net i gyfanswm asedau), eto'n dal i fod â chostau gweithredu uchel iawn ac yn parhau i ddal mwy o gronfeydd arian wrth gefn nag a ddymunir: mae'r sefyllfa yng nghyswllt darpariaeth dyledion drwg wedi amrywio, fodd bynnag, gyda'r ddarpariaeth yn cynyddu mewn rhai undebau credyd ac yn gostwng mewn rhai eraill.

Dangosodd ein gwaith maes fod rhai undebau credyd a ariennir gan SGEI wedi gallu gwneud cynnydd at ddod yn sefydliadau hunangynhaliol. Ond mae cydnabyddiaeth eang, gyda disgwyl y daw cyllid Llywodraeth Cymru i ben yn 2013, fod yr undebau credyd hynny sy'n goroesi yn debygol o grebachu (yn

eithaf sylweddol mewn rhai achosion) a bod nifer fach o undebau credyd yn debygol o gau.

Rydym o'r farn fod TSIB, y darparydd sydd â contract gan Lywodraeth Cymru, yn cyflawni ar ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i raddau helaeth a bod ganddo brosesau effeithlon ar waith i weinyddu cytundebau cyllid SGEI. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond effaith ymylol a gaiff y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael drwy TSIB ar fwyafrif undebau credyd.

Argymhellion

Mae'r gwerthusiad yn gwneud saith argymhelliad, sef:

Argymhelliad 1: Bod Llywodraeth Cymru yn egluro ei blaenoriaethau ar gyfer undebau credyd a darpariaeth gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol er mwyn gostwng y gwrthdaro mewn gofynion sydd ar y sector ar hyn o bryd.

Argymhelliad 2: Yng ngoleuni hyn (ac yn amodol ar bwysau ar y gyllideb) fod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gyllid parhaus yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol i bobl sydd wedi eu hallgau ac yn cynnal astudiaeth cwmpas i ymchwilio os y byddai'n ymarferol i sefydliadau eraill perthnasol (h.y. gyda thrwydded FSA) dendro i ddarparu gwasanaethau o'r fath.

Argymhelliad 3: Os yw Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddatblygu rhwydwaith ariannol gynaliadwy o undebau credyd ar ôl 2013, yna rydym o'r farn y dylai gymryd agwedd galetach i sicrhau y ceir gwell gwerth am arian o'r buddsoddiad. Yn neilltuol dylai (i) adolygu perfformiad undebau credyd a ariannwyd gan SGEI hyd yma; (ii) ystyried darparu cyllid craidd ychwanegol (refeniw a chyfalaf) i'r undebau credyd a dargedwyd am dair blynedd arall ond ar sail tapro lawr yn erbyn cynlluniau busnes credadwy sy'n dangos sut y medrir sicrhau cynaliadwyedd erbyn 2016) (iii) dileu gofynion ar yr undebau credyd hyn i dargedu ymdrechion recriwtio a thwf yn benodol at unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol a chytuno ar dargedau ar gyfer twf aelodaeth,

twf asedau a'r canran o drosiant sydd yn incwm a enillir; ac (iv) adolygu cefnogaeth yn flynyddol a thynnu cyllid yn ôl o unrhyw undebau credyd sy'n methu cyflenwi yn unol â hynny.

Argymhelliad 4: Bod y prosiect, drwy ei ddarparwydd contractiol TSIB, yn parhau i ddarparu cefnogaeth llywodraethiant a chydymffurfiaeth i undebau credyd am weddill cyfnod y prosiect, a rhoi mwy o ffocws ar gefnogi recriwtio aelodau Bwrdd newydd i undebau credyd a hwyluso cynllunio olyniaeth o fewn yr undebau credyd hynny sydd angen cefnogaeth o'r fath ac a all weld y gwerth mewn derbyn hynny.

Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r undebau credyd hynny a gyflawnodd eu targedau cyllid contractiol SGEI i ddenu sylfaen aelodaeth ehangach a chynyddu eu portffolio benthyca er mwyn cynyddu eu gallu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Dylid hefyd annog yr undebau credyd hyn i ganolbwyntio ar gadw eu haelodau presennol.

Argymhelliad 6: Bod y prosiect yn ailystyried ei ddarpariaeth marchnata er mwyn canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth pobl o undebau credyd ac ehangu ei farchnata i ddenu sylfaen aelodaeth ehangach i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn argymhell ystyried cryfhau brand cyffredin undebau credyd yng Nghymru.

Argymhelliad 7: Bod y prosiect yn rhoi cefnogaeth i'r sector undeb credyd i fynd i'r afael â'i wendidau presennol mewn perfformiad ariannol allweddol, yn neilltuoel yn ymwneud â dyledion drwg a gostwng costau gweithredu. Mae cwmpas i ymchwilio ymhellach rannu adnoddau a chostau gweithredu ar draws undebau credyd y rhoddir cefnogaeth iddynt.

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (y cyfeirir ato fel y prosiect Undebau Credyd yng ngweddill yr adroddiad hwn).

Wedi'i ariannu gan linyndatblygu Economaidd Cymunedol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, mae'r prosiect Undebau Credyd yn awr hanner ffordd drwy'r ail gam cyflenwi, ar ôl cael ei dreialu am gyfnod o flwyddyn rhwng Ebrill 2009 a Mehefin 2010. Cafodd cam cyntaf y cynllun peilot ei gyflenwi gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a chaiff yr ail gam ei gyflenwi gan y Busnes Buddsoddiad Cymdeithasol (TSIB).

1.2 Nod yr Adolygiad

Nod y gwerthusiad hwn yw asesu effaith ac effeithlonrwydd y prosiect mynediad i wasanaethau ariannol drwy undebau credyd ac i ba raddau y cafodd ei nodau ac amcanion eu cyflawni.²

Mae'r gwerthusiad yn cynnwys tri cham neilltuol: gwerthusiad ffurfiannol (cam cyntaf), gwerthusiad interim (ail gam) a gwerthusiad crynodol (trydydd cam). Cynhaliwyd y gwerthusiad ffurfiannol yn ystod 2011 ac arweiniodd at gyhoeddi Adroddiad Blwyddyn Gyntaf.³

Amcanion ail gam y gwaith oedd adolygu:

- i ba raddau y cafodd argymhellion cam un eu gweithredu;
- i ba raddau y mae nodau, amcanion a thargedau cam dau yn cael eu cyflawni;
- effaith y prosiect ar aelodau newydd a phresennol undebau credyd, y gymuned leol a'r economi;

² Manyleb Gwahoddiad i Dendro, Tudalen 4.

³ Gellir gweld yr adroddiad yn: <http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/creditunions/?lang=cy>.

- i ba raddau y meddir priodoli'r newid yn amrywion targed WEFO ar gyfer cam dau i'r prosiect;
- i ba raddau y mae'r prosiect yn cyfrannu at y targedau yng Nghynllun Gweithredu Undebau Credydau;
- gwir all-dro'r prosiect hyd yma yn erbyn disgwyliadau;
- unrhyw risgiau a ddaeth yn amlwg ac asesu'r effaith a gawsant ar berfformiad;
- I ba raddau y mae'r prosiect wedi datblygu neu addasu yn unol gyda deddfwriaeth a pholisi.

1.3 Dull

Mae'r adroddiad interim hwn yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Mai a Thachwedd 2012 oedd yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cynllunio gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad i gytuno ar raglen waith y cyfnod interim;
- diweddarau'r adolygiad llenyddiaeth o bolisi a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a Chymru yng nghyswllt y sector undebau credyd;
- adolygu dogfennau cam dau yn ymwneud â chyflenwi'r prosiect Undebau Credyd;
- adolygu data monitro ac allbwn cam dau gyda golwg ar asesu i ba raddau y caiff targedau cam dau eu cyflawni;
- adolygu data ariannol a pherfformiad yng nghyswllt undebau credyd yng Nghymru;
- datblygu canllawiau pwnc lled-strwythuredig ac ymgynghori gyda chyfanswm o 14 rhanddeiliad, yn cynnwys swyddogion TSIB a Llywodraeth Cymru;
- datblygu canllawiau pwnc lled-strwythuredig a chynnal cyfweiliadau manwl gyda 16 o aelodau bwrdd Undebau Credyd, 16 o staff (yn cynnwys rheolwyr), 13 gwirfoddolydd a 25 aelod ar draws wyth undeb credyd yn ogystal â hwyluso grŵp ffocws gyda phedwar

rheolwr/cynrychiolydd undebau credyd⁴ yng Nghyfarfod Cydlynu Undebau Cymru-gyfan a gynhaliwyd ym mis Hydref 2012;

- datblygu canllawiau pwnc lled-strwythuredig a chynnal cyfweiliadau gyda rheolwr tair Undeb Credyd 'rheoli' neu gyffelyb nad ydynt yn cymryd rhan yn y prosiect.⁵

1.4 Strwythur yr Adroddiad yma

Yng ngweddill yr adroddiad yma, rydym yn gyntaf yn diweddarau'r cyd-destun polisi ar gyfer y sector undebau credyd ar lefel y Deyrnas Unedig a Chymru **(Adran 2)** cyn rhoi trosolwg o gam un a cham dau y rhaglen **(Adran 3)**.

Rydym wedyn yn cyflwyno canfyddiadau ein gwaith maes a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn **(Adran 4)**, sydd hefyd yn rhoi ystyriaeth i'n dadansoddiad o ddata perfformiad prosiect, perfformiad ariannol undebau credyd ac undebau credyd cyffelyb. Yn olaf, cyflwynwn ein casgliadau ac argymhellion tymor canol **(Adran 5)**.

⁴ Yr oedd un ohonynt hefyd wedi ei gynnwys yn yr ymweliadau astudiaethau achos.

⁵ Dewiswyd un Undeb Credyd o Gymru (Undeb Credyd Bargoed, Aberbargoed a Gilfach (BAG) a dau undeb credyd o Loegr (Undeb Credyd Bryste ac Undeb Credyd Just (Swydd Amwythig, Telford a Wrekin).

2. ADOLYGIAD POLISI

2.1 Crynodeb o Adolygiad Polisi yr Adroddiad Blwyddyn Gyntaf

Roedd ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf yn adolygu nifer o ddogfennau polisi a strategaeth allweddol Cymru yn berthnasol i'r prosiect Undebau Credyd, yn cynnwys Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru,⁶ Cynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru⁷ a'r Rhaglen Lywodraethu⁸ gyfredol. Ystyriodd yr adroddiad hefyd gyd-destun y Deyrnas Unedig yng nghyswllt diwygiadau deddfwriaethol yn effeithio ar undebau credyd ar draws Prydain Fawr a gwerthusiad o Gronfa Dwf yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Casgliad ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf oedd bod y mudiad undebau credyd yng Nghymru wedi datblygu llai nag mewn rhai gwledydd eraill ond bod cyd-destun polisi Cymru yn gefnogol iawn i undebau credyd fel dulliau allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag allgauedd ariannol. Gwelsom fod y gefnogaeth ar gyfer datblygu undebau credyd yng Nghymru yn amlwg iawn a bod y prosiect wedi'i wreiddio'n dda ac yn gydnaws â pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru yn ystod ei sefydlu, nid yn lleiaf y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd sydd rhyngddynt yn gosod cyfeiriad teithio manwl iawn ar gyfer y mudiad yng Nghymru.

Daethom hefyd i'r farn fod y disgwyliadau ar undebau credyd yn uchel iawn a gellid dadlau nad ydynt yn realistig. Ein casgliad oedd yr ymddengys fod datgysylltiad rhwng galluedd y mudiad undebau credyd yng Nghymru a'r dyhead iddo gyflenwi'r amcanion polisi lefel uchel disgwylidig yn cwmpasu cyfiawnder cymdeithasol, datblygu economaidd a hyd yn oed addysg. Fe wnaethom awgrymu fod angen datblygu galluedd, hyfywedd a threfniadau llywodraethiant undebau credyd yng Nghymru er mwyn eu galluogi a'u

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Gorffennaf 2009) *Mae Pawb yn Cyfri, Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer Cymru*.

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2010) *Codi'r Proffil: Ymateb i'r Her, Cynllun Gweithredu ar gyfer y Mudiad Undebau Credyd yng Nghymru*.

⁸ Llywodraeth Cymru (Medi 2001) *Rhaglen Lywodraethu (2011-2016)*.

grymuso i allu cyflawni eu potensial fel sefydliadau ariannol cymunedol. Fe wnaethom ddadlau y dylai'r newidiadau deddfwriaethol a ddechreuwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig helpu i symleiddio'r amgylchedd y mae undebau credyd yn gweithredu ynddo a galluogi rhagolwg mwy hyblyg a masnachol oedd yn debygol o arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng undebau credyd a benthycwyr masnachol. Fodd bynnag, roedd hefyd gydnabyddiaeth y byddai angen ategu dadreoleiddio gyda chefnogaeth barhaus er enghraifft i wella sgiliau a galluedd cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â rhedeg undebau credyd.

Daethom i'r casgliad fod mynd i'r afael ag allgauedd ariannol yn her sylweddol ac na fedrid disgwyl i undebau credyd gyflawni hyn gan weithio ar ben eu hunain. Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a hefyd y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn tanlinellu pwysigrwydd awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a rhanddeiliaid lleol eraill yn cydweithio gydag undebau credyd ac yn eu cefnogi i gyflawni'r nod.

2.2 Cyd-destun Polisi Presennol Cymru

Credwn fod cyd-destun polisi Cymru yn parhau'n gefnogol, serch yn uchelgeisiol, ac yn ei adroddiad blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu⁹ mae Llywodraeth Cymru yn ategu rôl Undebau Credyd wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgauedd ariannol yng Nghymru, gan ddatgan yn glir fod:

'datblygu Undebau Credyd yn ymrwymiad maniffesto. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn datgan nôd o sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n bosib yn defnyddio Undebau Credyd a bydd rhaglen o gefnogaeth ar gael tan 2013 i'w cynorthwyo i ddatblygu yn sefydliadau mwy hunan-gynhaliol'.¹⁰

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn dweud fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £4.056 miliwn yn y sector dros gyfnod o dair blynedd i alluogi

⁹ Llywodraeth Cymru (Mai 2013) *Adroddiad Blynyddol Rhaglen Lywodraethu*.

¹⁰ Ibid, tudalen 38.

Undebau Credyd Cymru i gynnig opsiynau benthyca amgen a fforddiadwy i unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol - cynnig a ddaeth yn gynyddol bwysig yn yr hinsawdd economaidd presennol a'r pwysau dilynol ar incwm aelwydydd.

Mae'r ffocws deublyg ar fynd i'r afael â thlodi a datblygu cynaliadwyedd hirdymor undebau credyd yn y Rhaglen Lywodraethu yn dangos yn glir y nodau polisi Llywodraeth Cymru a osododd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector. Gellid dweud bod gwrthdaro yn y nodau hynny.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn sôn am rai o lwyddiannau'r prosiect Undebau Credyd ac yn dweud fod 7,996 o gynilwyr mewn oed a chynilwyr ifanc yn cyrchu cynnyrch ariannol drwy undebau credyd yn Rhagfyr 2011 gyda thwf aelodaeth blynyddol o 11%.¹¹ Dim ond dau undeb credyd oedd yn gweithredu ar ddiffyg bychan ym Medi 2011¹² a chanfuwyd fod ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru o undebau credyd yn sylweddol uwch nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Mae'n dweud ymhellach y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ac ehangu Undebau Credyd ac y bydd y ffocws yn y blynyddoedd i ddod ar weithio gydag awdurdodau lleol i ehangu darpariaeth cyfleusterau didyniad cyflogres. Dywed y ddogfen i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ysgrifennu at arweinwyr awdurdodau lleol ym mis Awst 2011 i annog ymchwilio tanysgrifiadau cyflogres i undebau credyd, a chyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol ym mis Mawrth 2012 i drafod deunyddiau marchnata.¹³

¹¹ Tudalen 38.

¹² Tudalen 38.

¹³ Ibid., Pennod 9 Ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu (Ymrwymiad 9/012).

2.3 Polisi cyfredol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r cyd-destun deddfwriaethol

Bu datblygiadau sylweddol ar lefel polisi a deddfwriaethol y Deyrnas Unedig ers lansio'r prosiect Undebau Credyd. Islaw trafodwn rai o'r datblygiadau allweddol sydd yn effeithio ar waith undebau credyd Cymru.

2.3.1 Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol 2010

Mae'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol, a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2011, wedi galluogi undebau credyd i wneud newidiadau sylfaenol i'w gweithrediadau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae cyflwyno'r deddfwriaeth newydd wedi galluogi undebau credyd i ymestyn allan i grwpiau newydd drwy wasanaethu mwy nag un grŵp o bobl a ddiffiniwyd yn dyn,¹⁴ i ddarparu gwasanaethau i grwpiau cymunedol, busnesau a mentrau cymdeithasol yn ogystal ag i unigolion, ac i gynig llogau ar gynilion, yn hytrach na difidend. Mae gan gyflwyno'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol oblygiadau sylweddol ar gyfer un o'r amcanion yng Nghynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru - bydd yn dechnegol yn llawer rhwyddach i gyflawni'r amcan o wasanaeth i bob rhan o Gymru gan nad yw undebau credyd wedi eu cyfyngu mwyach i weithio o fewn ardal ddaearyddol benodol. Mae llawer o undebau Cymru wedi croesawu'r deddfwriaeth newydd ac wedi ehangu eu hardaloedd daearyddol 'cwlwm cyffredin' a gwarantu cyfradd log ar gynilion aelodau. Bu'r defnydd o'r pŵer i gynig gwasanaethau i grwpiau eraill megis busnesau a mentrau cymdeithasol yn fwy cyfyngedig hyd yma.

2.3.2 Rhaglen Diwygio Lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Cyhoeddodd Llywodraeth Glymbleidiol y Deyrnas Unedig Bapur Gwyn 'Universal Credit: welfare that works' ym mis Tachwedd 2010 sy'n nodi ei chynigion ar gyfer diwygio'r system les er mwyn symleiddio'r system budd-daliadau a mynd i'r afael â chymhlethdod gweinyddol. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol ar 8 Mawrth i'r Bil dilynol a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a

¹⁴ Yn flaenorol roedd yn rhaid i bob undeb credyd brofi fod gan bawb oedd yn gymwys i ymuno rywbeth yn gyffredin (fel arfer un ai'n gysylltiedig â man preswyllo neu weithle).

Phensiynau a daeth yn Ddeddf Seneddol (Deddf Diwygio Lles 2012).¹⁵ Mae'r Ddeddf yn cyflwyno ystod eang o ddiwygiadau y bwriedir iddynt wneud y system budd-daliadau a chredydau treth yn decach a symlach. Tybir mai dyma'r newid mwyaf i'r system les am dros 60 mlynedd¹⁶ ac fe'i cyflwynir o Ebrill 2013 ymlaen. Un o'r newidiadau allweddol a gyflwynir fel rhan o'r rhaglen diwygio lles fydd cyflwyno Credyd Cynhwysol sy'n anelu i symleiddio'r system budd-daliadau drwy ddod ynghyd ag amrywiaeth o fudd-daliadau oedran gwaith mewn un system fisol symlach. Bydd y newid yma'n cynnig cyfleoedd i undebau credyd (yn nhermau rheoli'r hyn a elwir yn gyfrifon pot jam ar gyfer rhai sy'n derbyn budd-daliadau i sicrhau eu bod yn cadw arian i dalu am rent i landlordiaid) yn ogystal ag anawsterau (megis y golled bosibl o drefniadau lle telir budd-daliadau penodol i gyfrifon cynilo undebau credyd). Yn olaf, bydd y Ddeddf Diwygio Lles yn arwain at ddiddymu rhai elfennau o gynllun presennol y Gronfa Gymdeithasol, a weinyddir ar hyn o bryd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyda darpariaeth newydd leol i gymryd ei lle.

2.3.3 Cronfa Gymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau

Fel rhan o'r newidiadau Diwygio Lles, o fis Ebrill 2013 cyflwynir Cronfa Gymdeithasol newydd yng Nghymru a gaiff ei rheoli gan Lywodraeth Cymru i gymryd lle cynllun Cronfa Gymdeithasol ddewisol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae cynllun presennol y Deyrnas Unedig yn cynnig taliadau drwy Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng i helpu pobl gydag anghenion sy'n anodd eu cyflawni o incwm rheolaidd ac mae'n cynnwys dau ran neilltuol - rhan a reoleiddir a rhan dewisol. Caiff cyfrifoldeb am elfen ddewisol y cynllun ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac fe'i defnyddir i drin anghenion grwpiau bregus a rhai sydd wedi eu hallgau'n ariannol.

Awgrymwyd yn wreiddiol y gallai undebau credyd fod â rôl i'w chwarae wrth weinyddu Cronfa Gymdeithasol newydd Cymru ond ym mis Tachwedd 2012¹⁷ cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod Northgate Public Services, mewn partneriaeth â Family Fund Trading a Chyngor Bwrdeisdref Sirol Wrecsam,

¹⁵ Senedd y Deyrnas Unedig (Mawrth 2012) *Welfare Reform Act*.

¹⁶ Senedd y Deyrnas Unedig (Mawrth 2012) *Welfare Reform Act* ar gael yn <http://www.dwp.gov.uk/policy/welfare-reform/legislation-and-key-documents/welfare-reform-bill-2011/>.

¹⁷ <http://wales.gov.uk/newsroom/housingandcommunity/2012/6764429/?lang-cy>.

wedi sicrhau'r contract i gyflenwi'r Gronfa Gymdeithasol yng Nghymru. Mae rôl bosibl undebau credyd wrth gefnogi gwaith y contractwyr hyn yn dal rywfaint yn aneglur.

2.3.4 Cronfa Moderneiddio ac Ehangu yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) astudiaeth ddichonolrwydd¹⁸ i edrych ar bosibiliadau ehangu, moderneiddio a datblygu undebau credyd cynaliadwy ar draws y Deyrnas Unedig drwy ddarparu cyllid gan DWP ar gyfer undebau credyd i'w gweinyddu i ddefnyddwyr ar incwm isel. Bwriad DWP wrth gomisiynu'r astudiaeth ddichonolrwydd yma oedd ymchwilio opsiynau yn dilyn diddymu ei Chronfa Dwf a oedd yn flaenorol wedi darparu credyd fforddiadwy i aelwydydd wedi eu hallgau'n ariannol drwy'r trydydd sector, yn cynnwys undebau credyd.

Canfu'r astudiaeth ddichonolrwydd fod marchnad ymysg aelwydydd incwm is ar gyfer gwasanaethau bancio, cynilo, adneuon a benthyca a ddarperir yn lleol gan ddarparwyr yr ymddiriedir ynddynt megis undebau credyd¹⁹ yn ogystal â dymuniad ymysg yr undebau credyd yr ymgynghorwyd â hwy i ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau ariannol y gallent eu cynnig. Ar ôl ystyried modelau amgen eraill o ddarparu ar gyfer defnyddwyr incwm isel, daeth yr astudiaeth i'r casgliad, er nad oedd rhai o'u prosesau a'u systemau yn addas i'r diben ar hyn o bryd, y byddai angen rhaglen sylweddol o newid diwylliannol a newid ymddygiad i sicrhau'r moderneiddio a'r ehangu sydd ei angen.²⁰

Argymhellodd yr astudiaeth y dylai'r risgiau sylweddol mewn cyflenwi strategaeth foderneiddio gael eu lliniaru drwy fabwysiadu dull gweithredu mewn camau lle byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda grwpiau bach o undebau credyd ar unrhyw un amser i alluogi profi effeithiol a lledaenu gwersi a ddysgwyd.²¹ Argymhellodd hefyd y dylai Llywodraeth y

¹⁸ Adran Gwaith a Phensiynau (Mai 2012) *DWP Credit Union Expansion Project Steering Committee Feasibility Study Report* ar gael yn <http://www.dwp.gov.uk/docs/credit-union-feasibility-study-report.pdf>.

¹⁹ Tudalen 4.

²⁰ Tudalen 4.

²¹ Tudalen 5.

Deyrnas Unedig symud ymaith o dalu am wasanaethau ymlaen llaw tuag at dalu am ganlyniadau y cytunwyd arnynt mewn symudiad i drin y risgiau sy'n gysylltiedig gydag undebau credyd heb fod yn cyflenwi - newid a fyddai'n achosi problemau sylweddol gyda llif arian i lawer o undebau credyd llai Cymru. Argymhellwyd hefyd mai dim ond undebau credyd addas ddylai gael eu gwahodd i gymryd rhan a gweithredu meini prawf llym na fyddai ond yn caniatáu'r rhai a ddangosodd gynnydd sylweddol i gymryd rhan. Awgrymodd yr astudiaeth y byddai'n rhaid i undebau credyd ddangos eu bod wedi cyflawni tua wyth o feini prawf er mwyn ymuno â'r rhaglen, ac y byddai nifer ohonynt yn golygu na allai'r rhan fwyaf o undebau credyd Cymru gymryd rhan ar hyn o bryd, yn cynnwys llwyfannau technoleg gwybodaeth awtomatig yn rhoi mynediad ar wefan a digidol, systemau awtomatig ar gyfer gwneud penderfyniad ar fenthyciadau a chynlluniau i wasanaethu cymuned ddaearyddol fwy a mwy amrywiol.

Argymhellodd yr astudiaeth y byddai'n bosibl sicrhau'r twf a ddymunir a moderneiddio undebau credyd fel canlyniad i gymhorthdal ariannol o £51 miliwn i undebau credyd dethol dros gyfnod o bedair blynedd ac y medrid sicrhau 'rhywbeth yn agos at gynaliadwyedd' o fewn cyfnod o saith i ddeng mlynedd ond nad oedd hynny'n gwarantu y byddent byth yn dod yn hollol gynaliadwy.²² Credid mai un o'r ffactorau allweddol fyddai'n cyfyngu undebau credyd rhag dod yn gynaliadwy oedd y cap a roddai deddfwriaeth ar y cyfraddau llog y gallant ei godi - ni ystyriwyd fod y 2% fesul mis calendr cyfredol ar falans gweddilliol y benthyciad yn ddigon uchel i ganiatáu i hyd yn oed yr undebau credyd mwyaf effeithiol o ran cost i dorri'n wastad ar fenthyciadau llai. Galwodd yr astudiaeth ar Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ystyried os mai nawr yw'r amser cywir i gyflwyno'r achos dros gynyddu'r gyfradd i 3% y mis calendr ar y balans gostyngol. Yn olaf, argymhellodd yr astudiaeth y dylai fod yn ofynnol i undebau credyd wneud cyfraniad ariannol at gost newid seilwaith systemau er mwyn arddangos eu hymrwymiad i foderneiddio.

²² Tudalen 5.

3. CEFNDIR Y PROSIECT

3.1 Cyflwyniad

Cyflwynwyd y prosiect undebau credyd am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2009 ac yn ystod ei gynllun peilot cam un darparwyd £1.9 miliwn drwy Lywodraeth Cymru a chyllid rhaglen Cydgyfeirio yr Undeb Ewropeaidd (yn gyllid cyfalaf a hefyd yn referniw) i gefnogi ehangiad a chynaliadwyedd 22 o undebau credyd. Cafodd Canolfan Cydweithredol Cymru ei phenodi gan Lywodraeth Cymru i weinyddu cronfeydd undebau credyd a darparu cefnogaeth i'r sector. Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod y prosiect a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd un ai wedi cyflawni neu ragori ar bedwar o dargedau WEFO ond wedi methu cyflawni'r targed olaf, y pumed, o gefnogi 2,847 o unigolion i gael mynediad i wasanaethau ariannol. Roedd y prif heriau a ddynodwyd yn ystod ein gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf o gam un yn ymwneud â'r datgysylltiad rhwng targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, Cynllun Busnes WEFO²³ a thargedau contractiol undebau credyd yn ogystal â'r diffyg cysondeb yn nhermau diffinio targedau a ariennir gan WEFO.

Dechreuodd ail gam y prosiect ym mis Hydref 2010 a bydd yn parhau hyd fis Rhagfyr 2013. Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer cam dau ychydig dan £3.5 miliwn gyda £1.62 miliwn o hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a £1.88 miliwn drwy raglen Cydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Nod cam dau y prosiect, fel y'i nodir yn y cynllun busnes ar gyfer cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yw:

'cefnogi datblygu mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithiol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth ariannol ansawdd uchel hygyrch,

²³ Ni chafodd y targedau allweddol a nodir yng Nghynllun Gweithredu Undebau Credyd (megis cynyddu treiddiad marchnad undebau credyd, cynyddu sylfaen asedau undebau credyd, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu nifer gwirfoddolwyr undebau credyd) eu hadlewyrchu yng Nghynllun Busnes WEFO na thargedau contractiol undebau credyd unigol.

fforddiadwy a chyfartal, a all ddiwallu anghenion holl ddinasyddion Cymru, ac yn arbennig y rhai sydd yn yr angen mwyaf.²⁴

Er y paratowyd y cynllun busnes cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, serch hynny roedd y nod yn gyson gyda nodau'r Cynllun Gweithredu pan y'i cyhoeddwyd. Fodd bynnag, roedd yr amcanion rywfaint yn llai penodol na rhai'r Cynllun Gweithredu:²⁵

'I

- gryfhau safonau llywodraeth a chydymffurfio undebau credyd yng Nghymru;
- cefnogi cynaliadwyedd tymor hir y mudiad undebau credyd;
- codi proffil y mudiad undebau credyd;
- annog twf mewn aelodaeth - cyflawni twf sylweddol yn aelodaeth undebau credyd yng Nghymru, wedi ei gysylltu â chynnydd graddol mewn cynilion, benthyciadau a roddir (asedau cyfredol) a'u had-dalu a chasglu unedau cyfalaf digonol; a
- chefnogi undebau credyd yn cyflenwi cynlluniau cynhwysiant ariannol'.²⁶

Y targedau a gymeradwywyd gan WEFO ar gyfer cyfnod tair blynedd cam dau y prosiect oedd:

Ffigur 1: Targedau WEFO Cam Dau y Prosiect Undebau Credyd

	Targed
Mentrau cymdeithasol a gaiff eu cefnogi'n ariannol	17
Mentrau cymdeithasol a gefnogir	17
Nifer y swyddi a gaiff eu creu	7
Nifer y mentrau cymdeithasol a gaiff eu creu	1
Nifer pobl yn cyrchu gwasanaethau (gwasanaethau ariannol)	7,500
Mentrau'n mabwysiadu neu'n gwella Systemau Rheolaeth Amgylcheddol	17
Mentrau'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	17
Mentrau cymdeithasol net a gaiff eu creu	1
Swyddi net a gaiff eu creu	1

²⁴ Cynllun Busnes Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Cymru (Cam Dau) a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno i WEFO (Rhif Achos 806617) Tudalen 3.

²⁵ Gweler Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf 2.2 ar gyfer amcanion y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd.

²⁶ Ibid., tudalen 3.

Roedd y targed ar gyfer creu un fenter gymdeithasol newydd (a chreu un fenter gymdeithasol net) yn ymwneud ag uno nifer o unedau credyd yng ngogledd Cymru i greu un undeb credyd newydd. Mae hyn yn arwyddocaol yn yr ystyr ei fod yn dangos polisi o gyfuno a chryfhau'r sylfaen undebau credyd presennol, yn hytrach na chanolbwyntio ar greu rhai newydd, ychwanegol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanyleb ar gyfer cyflenwi'r prosiect Undebau Credyd (cam dau). Nododd y fanyleb y byddai £3 miliwn o gyllid ar gael i ddarparu'r gwasanaeth i gyflenwi'r prosiect ond y disgwyliad y byddai dim llai na 70% o'r gyllideb yma ar gael yn uniongyrchol i undebau credyd ac nad oedd y sefydliad cyflenwi yn cadw dim mwy na 30% ar gyfer costau gweinyddu'r prosiect a darparu'r gefnogaeth berthnasol. Fel y bu, contractiwyd TSIB i gyflenwi cam dau y prosiect.

Wrth baratoi ar gyfer cam dau y prosiect, gwahoddodd Llywodraeth Cymru undebau credyd i wneud cais am gyllid pellach a chyhoeddodd ail ddogn o Gytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol (SGEI) i 19 o unedau credyd ar gyfer y cyfnod Medi 2010 - Awst 2011. Roedd cyllid refeniw'n unig o ychydig dros £750,000 ar gael gyda symiau cyllid unigol yn amrywio o £21,260 (undeb credyd Aberhonddu) i £50,000 (Arfordir Clwyd, Gateway, Credcer, Romcul a Smart Money), fel y'i cyflwynir yn Ffigur 2 ar y dudalen nesaf. Nid oedd unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael i gynnig cronfeydd cyfalaf i undebau credyd yn ystod y cyfnod yma. Yn ychwanegol, roedd cyllid ar gyfer dau brosiect penodol ar gael i'w cyflenwi mewn pedwar undeb credyd sef Undebau Credyd Smart Money, Gateway, Casnewydd a Merthyr Tudful - sef ariannu'r Swyddog Adennill Dyled yn seiliedig yn undeb credyd Smart Money (£27,464) a'r prosiect Cydgordio Ariannol a'r prosiect Sganio Dogfennau (yn seiliedig yn undeb credyd Gateway ac yn gyfanswm o £22,937).

Gwnaed cynigion ar sail un flwyddyn, gydag opsiwn i ymestyn am flynyddoedd pellach yn amodol ar asesiad o'r perfformiad a gyflawnwyd yn y flwyddyn gyntaf. Yn debyg i gam un, gosodwyd targedau penodol i undebau credyd, a drafodir yn fanwl yn Adran 4.3 yr adroddiad.

Yn ystod Awst 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drydedd cyfres o gytundebau cyllid SGEI undebau credyd ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd o fis Hydref 2011 i Fedi 2013. Cyflwynir y symiau referniw yn unig a gadarnhawyd yn Ffigur 2 islaw. Mae'n werth nodi fod cyllid ar gael ar hyn o bryd i 17 o undebau credyd yn dilyn cynnwys undebau credyd Cwm Llynfi ac Islwyn am y tro cyntaf yn ystod 2012 ac uno pum undeb credyd yng ngogledd Cymru (Caledfryn, Arfordir Clwyd, Llandudno a'r Cylch, Wrecsam a'r Llechen) yn gynnar yn 2011. Yn ôl y disgwyl, mae'r cyllid sydd ar gael i'r undeb credyd sydd newydd ei huno yn llawer mwy nag ar gyfer rhai eraill, llai.

Ffigur 2: Cytundebau Ariannu SGEI Cam Dau ar gyfer Undebau Credyd²⁷

Undeb Credyd	Cam Dau: Cyllid Blwyddyn Gyntaf (1 Hydref 10 – 30 Medi 11) (£)	Cam Dau: Cyllid Ail a Thrydedd Flwyddyn (1 Hydref 11 - 30 Medi 13) (£)	Cyfanswm Cyllid Cam Dau (£)
Aberhonddu a'r Cylch	21,260	42,520	63,780
Arfordir Clwyd	50,000	-	50,000
Bwrdeistref Merthyr Tudful	39,431	81,377 ²⁸	120,808
Caledfryn	35,537	-	35,537
Caerdydd a'r Fro	22,374	44,748	67,122
Casnewydd	35,000	72,500	107,500
Castell-nedd Port Talbot	45,558	91,116	136,674
Credcer	50,000	90,000 ²⁹	140,000
Cwm Llynfi	-	20,000	20,000
Cymuned Islwyn	-	47,000	47,000
Dragonsavers	46,000	92,000	138,000
Gateway	50,000	132,276	182,276
Gogledd Cymru	n/a	396,178	396,178
Haven	30,000	70,000 ³⁰	100,000
LASA	24,406	48,812	73,218
Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr	34,453	89,906	124,359
Llandudno a'r Cylch	34,676	-	34,676
Robert Owen Trefaldwyn (Romcul)	50,000	0	0
Save Easy	30,453	60,906	91,359
Smart Money	50,000	102,500	152,500
Wrecsam	46,876	-	46,876
Y Llechen	31,000	-	31,000
Cyfanswm	£727,024	£1,481,839	£2,158,863

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oes sicrwydd am gyllid pellach ar ôl mis Medi 2013 ac y dylid datblygu cynlluniau os na chaiff cefnogaeth

²⁷ Cyllid referniw yn unig.

²⁸ Yn cynnwys atodiad adennill dyledion o £2,500.

²⁹ Yn cynnwys atodiad adennill dyledion o £10,000.

³⁰ Yn cynnwys atodiad adennill dyledion o £10,000.

ariannol ei hymestyn.³¹

³¹ Cofnodion Grŵp Cydlynu Undebau Cymru Cymru-gyfan, 31 Hydref 2012.

4. CANFYDDIADAU

4.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma adroddwn ar y canfyddiadau o'n hadolygiad desg a'n gwaith maes. Ystyriwn yn gyntaf y farn ar y rhesymeg ddechreuol a pharhaol ar gyfer y prosiect (Adran 4.2), cyn troi i adolygu targedau a chyflawniadau'r prosiect ac undebau credyd unigol (Adran 4.3). Wedyn ymchwilion y trefniadau ar gyfer cyflenwi prosiect (Adran 4.4) a natur y gefnogaeth a ddarparwyd (yn bennaf drwy TSIB ond hefyd yn uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd) hyd yma (Adran 4.5 a 4.6). Mae Adran 4.7 yn edrych ar y datblygiadau allweddol a ddigwyddodd ar draws y sector a chyfraniad y prosiect i'r datblygiadau hyn. Yn olaf cyflwynwn farn yr aelodau unigol a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes am y gwahaniaeth a wneir gan undebau credyd (Adran 4.8), trafod i ba raddau yr aethpwyd ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad blwyddyn gyntaf (Adran 4.9) ac i ba raddau y mae'r prosiect ar y trac i gyflawni'r targedau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru (Adran 4.10).

4.2 Sylwadau ar Resymeg y Prosiect

4.2.1 Polisi Cymru

Er bod cefnogaeth gref yn parhau i'r sector undebau credyd yn nhermau datganiadau polisi ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru, awgrymodd ein gwaith maes fod gwrthdaro sylweddol yn parhau yn nisgwyliadau polisi Cymru ar gyfer undebau credyd. Mae'r broblem sylfaenol yn deillio o'r tensiwn rhwng defnyddio undebau credyd fel arf yn agenda gwrthdlodi Llywodraeth Cymru ar y naill law a dymuniad Llywodraeth Cymru i ddatblygu sector undeb credyd cynaliadwy ar y llaw arall. Mae'r tensiwn yn glir yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu a nodwyd uchod sy'n cyfeirio ar yr un pryd at nod y prosiect undebau credyd o wneud undebau credyd yn fwy cynaliadwy a'u galluogi i gynnig opsiynau benthyca amgen a fforddiadwy i unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol.

Roedd undebau credyd eu hunain yn awyddus i bwysleisio eu bod yn derbyn negeseuon cymysg gan Lywodraeth Cymru - ar y naill law, roeddent yn cael eu hannog i weithredu mewn ffordd fwy masnachol a dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, ac ar yr un pryd dywedir wrthynt am ganolbwyntio ar segmentau marchnad lle'r oedd yn amhosibl gwneud i ymgysylltu dalu. Awgrymodd adborth gan undebau credyd na fydd y strwythur ariannu presennol a ffocws ar gyflenwi gwasanaethau i grwpiau sydd wedi eu hallgau'n ariannol o reidrwydd yn arwain at ffurfio sefydliadau ariannol gynaliadwy. Yn wir, awgrymodd nifer o undebau credyd fod 'cau'r hatsys' a cheisio gwasanaethu marchnad greiddiol o gynilwyr mwy dibynadwy yn sylweddol fwy tebygol o arwain at gynaliadwyedd ariannol na'r strategaeth bresennol dan arweiniad Llywodraeth Cymru o geisio ehangu gwasanaethau i grwpiau sydd wedi eu hallgau'n ariannol: dadleuwyd fod 'methiant marchnad' darparwyr prif ffrwd (banciau a chymdeithasau adeiladu) i wasanaethu'r grwpiau hyn yn adlewyrchiad rhesymegol o gostau uchel ac enillion ansicr darparu gwasanaethau iddynt, a bod costau enfawr a thactegau diegwyddor benthyccwyr diwrnod cyflog yn rhannol yn adlewyrchu cyfraddau diffyg dalu uchel y grwpiau hyn.

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y bu newid amlwg ym mlaenoriaeth Llywodraeth Cymru tuag at fynd i'r afael â'r flaenoriaeth trin tlodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn fras (ac ymaith o gefnogi undebau credyd per se) oedd yn codi cwestiynau sylfaenol am resymeg y prosiect Undebau Credyd a ph'un ai oes ffyrdd eraill a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau ariannol i grwpiau sydd wedi eu hallgau yng Nghymru. Er bod cefnogaeth i undebau credyd wedi ei ddangos yn glir yn nogfennau polisi Llywodraeth Cymru, awgrymwyd yr ymddangosai fod lefel is o gefnogaeth gan y Gweinidog i ddatblygu'r sector undebau credyd fel diben ynddo'i hun dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd penderfyniadau diweddar megis penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i beidio ariannu cerdyn credyd undebau credyd blaendaledig a phenderfyniadau i beidio dyfarnu cyllid cyfalaf i ddau undeb credyd a wnaeth gais yn awgrymu i rai bod llai o flaenoriaeth ar gefnogi camau gweithredu oedd â'u ffocws ar ddatblygu cynaliadwyedd y sector.

Dadleuodd nifer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy fod darpariaeth cyllid grant i'r sector wedi symud rhai undebau credyd ymhellach o fod yn gyrrff hunangynhaliol gan fod argaeledd cyllid i gefnogi gweithgareddau 'uchelgeisiol' ac 'ymylol' megis darpariaeth seiliedig mewn ysgolion wedi gwneud undebau credyd yn fwy dibynnol ar gyllid grant. Dadleuwyd fod darparu cymorth ariannol wedi annog undebau credyd i symud ymaith o'u busnes craidd o gynilo a benthyca, gan felly o bosibl beryglu eu dyfodol.

Credai rhai o blith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy fod polisi Cymru ar groesffordd gan ofyn am fwy o eglurdeb am yr un amcan y dymunai Llywodraeth Cymru i undebau credyd ei gyflawni. Os mai'r flaenoriaeth oedd darparu gwasanaethau i grwpiau wedi eu hallgau'n ariannol, pwysleisiodd undebau credyd yna fod rhaid gwneud iawn am ddarpariaeth o'r fath ar sail barhaus: 'byddai delio [yn unig] gyda phobl na all dalu i chi yn hunanladdiad masnachol'.

Fodd bynnag os oedd polisi allweddol Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu cyrff cynaliadwy, yna galwodd cynrychiolwyr undebau credyd am newid sylfaenol i'r ffordd y caiff undebau credyd eu cefnogi. Er enghraifft awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o bwyslais ar gefnogi undebau credyd i recriwtio a gwasanaethu cwsmeriaid sydd heb eu hallgau'n ariannol (cwsmeriaid haen 1 a haen 2) gan fod y rhain yn tueddu i gymryd benthyciadau mwy a bod â gwell record ar gyfer ad-dalu. Awgrymwyd hefyd y dylai cefnogaeth ar gyfer y sector gael ei wahaniaethu - er enghraifft gofynnodd rhai os mai dim ond mewn undebau credyd llwyddiannus gydag ymrwymiad i dwf a chynnydd tuag at gynaliadwyedd y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi, yn hytrach na mabwysiadu dull 'blanced' i gefnogi pob undeb credyd ac efallai 'daflu arian da ar ôl arian drwg'.

Yn nhermau'r prosiect cyfredol roedd dadl gref o'r tu mewn i'r sector undebau credyd fod angen yn parhau amdano ac y dylai aros yn ei le hyd ddiwedd 2013. Ymhellach credai'r rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy y dylai cefnogaeth i'r sector barhau ar ôl 2013 er bod llai o eglurdeb am sut olwg ddylai fod ar y gefnogaeth hon. Mynegodd llawer bryderon pe deuai'r cyllid i

undebau credyd i ben ddiwedd 2013 y byddai llawer o undebau credyd yn dychwelyd i'w sefyllfa flaenorol ac y byddid yn colli'r manteision a sicrhawyd o'r cynnydd.

Yn nhermau disgwyliadau polisi (fel y mynegwyd yn y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd), roedd amrywiaeth barn am ba mor briodol oeddent a pha mor realistig ydynt ar y cam hwn. Ystyriai rhai undebau credyd a rhanddeiliaid y medrid cyflawni'r disgwyliadau ond dywedodd eraill mai dim ond ar gyfer nifer fechan o undebau credyd yr oeddent yn addas ac nad oeddent yn realistig ar gyfer y mwyafrif. Er enghraifft credai rhai, ond nid pawb, y gallai undebau credyd sicrhau treiddiad marchnad o 6% erbyn 2020. Ymhellach er y gallai ymddangos y cyflawnwyd y nod polisi o ddarparu gwasanaeth i Gymru gyfan, mewn gwirionedd credid nad oedd hyn yn wir gan fod undebau credyd yn barod i gyfaddef nad oeddent yn rhoi gwasanaeth llawn i'w hardaloedd 'cwlwm cyffredin': yn neilltuol, credid fod diffyg mynediad real i wasanaethau mewn llawer o ardaloedd gwledig.

4.2.2 Polisi'r Deyrnas Unedig

Dadleuwyd nad oedd cyflwyno Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol 2010 wedi cael effaith sylweddol ar y sector undebau credyd yng Nghymru hyd yma. Rhoddwyd tystiolaeth i awgrymu y gallodd rhai undebau credyd ehangu eu hardal cwlwm cyffredin sydd, mewn nifer o achosion, wedi achosi peth gwrthdaro rhwng yr undebau credyd hynny sy'n gweithredu ar draws yr un ardal cwlwm cyffredin. Roedd cyflwyno'r deddfwriaeth hefyd wedi galluogi undebau credyd i dderbyn aelodau corfforaethol, ond ni theimlwyd fod llawer o undebau credyd Cymru wedi manteisio ar y cyfle yma hyd yma.

Er bod ychydig o undebau credyd yng Nghymru wedi cymryd rhan yng Nghronfa Twf flaenorol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) nid oedd yn hysbys adeg ein gwaith maes os byddai unrhyw undebau credyd yng Nghymru yn cymryd rhan wrth gyflenwi y Gronfa Moderneiddio neu Ehangu ddilynol. Dangosodd y gwaith maes y gall y Gronfa fod yn gyfle i'r undebau credyd mwyaf ond byddai'n anodd i'r mwyafrif gymryd rhan gan na fyddent yn ateb meini prawf DWP. Ymhellach soniodd cwpl o undebau credyd am y

profiadau negyddol a gawsant drwy'r Gronfa Twf a dweud eu bod yn amharod i ystyried mynd i lawr y llwybr hwnnw eto.

Adeg ein gwaith maes nid oedd yn hysbys os byddai unrhyw rai o undebau credyd Cymru yn cymryd rhan uniongyrchol wrth gyflenwi y Gronfa Gymdeithasol newydd yng Nghymru. Fodd bynnag nododd rhai undebau credyd y disgwylid iddynt bartneru'r contractwr llwyddiannus drwy atgyfeirio pobl i'r Gronfa a chael ymgeiswyr llwyddiannus wedi eu hatgyfeirio yn ôl atynt.

Awgrymodd adborth gan ymgynghoreion fod undebau credyd Cymru yn dechrau rhagweld a theimlo effeithiau Diwygiadau Lles y Deyrnas Unedig a chredai nifer o ymgynghoreion undebau credyd y byddai cyflwyno Credyd Cynhwysol yn cael effaith niweidiol ar gwsmeriaid. Rhagwelai rhai y byddai mwy o alw yn cael ei roi ar undebau credyd i helpu aelodau i ymdopi â newidiadau megis taliadau misol a thalu mewn ôl-daliad. Mynegodd un undeb credyd eu pryderon am golli rheolaeth dros ôl-ddyledion benthyciadau aelodau pe bai credyd cynhwysol yn cael ei dalu i gyfrif darparwydd gwasanaethau ariannol arall gan fod ganddynt drefniadau ar waith ar hyn o bryd i aelodau unigol dalu rhai budd-daliadau penodol i'w cyfrif undeb credyd i ddiogelu ôl-ddyled ar eu benthyciad. Ar y llaw eraill credai nifer fechan o ymgynghoreion fod y diwygiadau lles arfaethedig yn rhoi cyfleoedd i undebau credyd, yn neilltuol yn nhermau cyfleoedd i weithio gyda chymdeithasau tai. Fodd bynnag mynegwyd llawer o bryderon nad oedd undebau credyd yn barod am y cyfleoedd hyn ac y gallent golli'r cyfle. Er enghraifft, dywedwyd fod cymdeithasau tai yn debygol o ffafrio gweithio gydag undebau credyd mwy a allai gynnig gwasanaethau mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol ac oedd â galluedd i drin nifer fawr o gyfrifon. Dywedodd un rhanddeiliad: 'dywedodd cymdeithas tai wrthyf nad oes ganddyn nhw ddiddordeb os na all undeb credyd gynnig 4,000 o gyfrifon.'

4.2.3 Effeithiau Allanol Eraill

Roedd cytundeb unfrydol y bu cynnydd diweddar yn argaeledd a defnydd gwasanaethau darparwyr ariannol eraill, yn cynnwys cwmnïau benthycia

diwrnod cyflog fel Provident a Wonga yn ogystal â siopau arian stryd fawr eraill, sydd wedi cynyddu lefelau cystadleuaeth ar gyfer undebau credyd.

Ymhellach, dadleuodd nifer o undebau credyd fod presenoldeb cryf gwefannau gwasanaethau ariannol fel moneysupermarket.com wedi gostwng effeithiau unrhyw farchnata a wneir gan undebau credyd a'r prosiect - yn neilltuol gan nad oedd gan rai undebau credyd frand cyffredin i gystadlu ac nad oedd gwefan gan bob undeb credyd.

Cyfeiriodd llawer o undebau credyd at y gostyngiad diweddar yn y galw am fenthyciadau a phriodolwyd y newid hwn i'r dirywiad economaidd a bod aelodau'n fwy tebygol o ddefnyddio eu cynilion yn hytrach na benthyca.

4.3 Targedau Prosiect a Pherfformiad

Yn yr adran hon trafodwn berfformiad y prosiect hyd yma. Mae hyn yn cynnwys crynodeb byr o gam un yn ogystal ag adroddiad manwl o berfformiad cam dau.

4.3.1 Targedau Cam Un

Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod cam un y prosiect wedi gallu un ai gyflawni neu ragori ar fwyafrif y targedau Cydgyfeirio a ariennir gan WEFO er bod diffyg tystiolaeth i gadarnhau rhai allbynnau a diffyg cysondeb yn y diffiniadau a ddefnyddiwyd. Dangosodd ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf hefyd alldro cymharol wan yn nhermau perfformiad undebau credyd o gymharu â'u targedau unigol ar gyfer cam un. Roedd y prif fater yn cyfeirio at y ffaith fod undebau credyd wedi mabwysiadu ystod eang o dargedau wedi eu diffinio'n wael (a bod amrywiaeth enfawr yng nghyfanswm nifer y targedau mewn cytundebau ariannu gwahanol undebau credyd) a olygai y profodd yn amhosibl asesu gwerth am arian. Ymhellach canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod diffyg aliniad rhwng y targedau a gytunwyd gydag undebau credyd unigol a'r targedau lefel prosiect a gytunwyd gyda WEFO.

Canfu ein gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf fod gan Ganolfan Cydweithredol Cymru contract i gyflenwi ar chwe maes allweddol o weithgaredd yn nhermau cefnogi undebau credyd yn ogystal â gweinyddu cytundebau ariannu SGEI. Daethom i'r casgliad fod y Ganolfan i raddau helaeth yn gallu cyflawni ei goblygiadau contractiol yn ystod cam un a chyflenwi'r ddarpariaeth cefnogaeth ofynnol, er bod ffocws y gwaith yn pwysu tuag at weinyddu cytundebau ariannu SGEI. Fodd bynnag, oherwydd diffyg Dangosyddion Perfformiad Allweddol penodol ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru i gyflenwi yng ngham un, daethom i'r casgliad ei bod yn anodd iawn asesu ei lwyddiant, neu fel arall, wrth gyrraedd amcanion Llywodraeth Cymru.

4.3.2 Targedau Prosiect Cam Dau

Mae gan gam dau y prosiect naw tharged lefel uchel i'w cyflawni erbyn diwedd Rhagfyr 2013 yn yr ardal Cydgyfeirio ac mae adolygiad o'r data a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru, a grynhoir yn Ffigur 3, yn dangos fod y prosiect yn gwneud cynnydd da ar y targedau hyn.

Ffigur 3: Perfformiad Ardal Cydgyfeirio ar Dargedau Cam Dau fel ym Medi 2012

	Targed	Cyflawnwyd hyd yma
Mentrau cymdeithasol a gafodd gefnogaeth ariannol	17	13 ³²
Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd	17	13 ³³
Nifer y swyddi a grëwyd	7	13
Mentrau cymdeithasol a grëwyd	1	N/A ³⁴
Nifer y bobl yn cyrchu gwasanaethau (gwasanaethau ariannol)	7,500	9,016 ³⁵
Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella Systemau Rheolaeth Amgylcheddol	17	4
Mentrau'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	17	7
Mentrau cymdeithasol net a grëwyd	1	N/A
Swyddi net a grëwyd	1	13

Ffynhonnell: Adroddiad Cynnydd WEFO a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ym Medi 2012

³² Er bod yr allbwn hwn yn is na'r targed gwreiddiol, cyflawnwyd y targed gan fod y prosiect wedi gweithio gyda phedwar undeb credyd yn gwasanaethu'r ardal Cydgyfeirio yng ngogledd Cymru a unodd i ffurfio Undeb Credyd Gogledd Cymru yn Ionawr 2011.

³³ Ditto.

³⁴ Cytunwyd gyda WEFO y byddid yn dileu'r dangosydd ar gyfer Mentrau Cymdeithasol a Grëwyd (a Mentrau Cymdeithasol Net a grëwyd) ar y sail fod Undeb Credyd Gogledd Cymru oedd newydd ei ffurfio yn cyfuno pum undeb credyd flaenorol, gyda phedair ohonynt yn yr ardal Cydgyfeirio.

³⁵ Yn ogystal â hyn recriwtiwyd 3449 o gynilwyr ifanc ers dechrau'r prosiect.

Efallai'n bwysicaf oll, gwnaed cynnydd da yng nghyswllt y cynnydd yn nifer y bobl yn cyrchu gwasanaethau ariannol. Datgelodd ein Gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf rai pryderon nad oedd y targed o gefnogi pobl i gyrchu gwasanaethau ariannol (a osodwyd ar 7,500) yn realistig ond bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i ail-alinio cytundebau cyllid SGEI undebau credyd gyda'r targed yn ystod 2011 yn profi'n effeithlon gan y rhagorwyd erbyn hyn ar y targed. Arweiniodd y newid at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl wedi eu hallgau'n ariannol a recriwtiwyd ac a adroddwyd gan y prosiect (cyfanswm o 9,016 o bobl wedi eu hallgau'n ariannol hyd yma). Yn ychwanegol cafodd 3,449 o aelodau ifanc eu cefnogi gan gynyddu'r cyfanswm i 12,465 o fewn yr ardal Cydgyfeirio yn unig.

Yn nhermau'r nifer o fentrau cymdeithasol a gafodd gefnogaeth ariannol, yn ôl y prosiect dim ond 13 undeb credyd sy'n derbyn cefnogaeth prosiect yn yr ardal Cydgyfeirio.³⁶ Fodd bynnag, gyda'i gilydd, cafodd y targed ei gyflawni dros gyfnod cam dau (gan felly gyrraedd targed WEFO), gyda phedwar undeb credyd yng ngogledd orllewin Cymru (yn ogystal ag undeb credyd Wrecsam) wedi uno i ffurfio un undeb credyd yn Ionawr 2011. Cafodd un undeb credyd newydd (Cwm Llynfi) hefyd ei recriwtio i'r prosiect ddiwedd 2011/dechrau 2012. Felly cefnogwyd cyfanswm o 17 undeb credyd o fewn yr ardal Cydgyfeirio.

Mae'r adroddiad chwarterol a gyflwynwyd i WEFO ym Medi 2012 yn nodi y bu 13 enilliad net mewn cyflogaeth undebau credyd. Casglwyd data ar swyddi a grëwyd (a swyddi net) gan undebau credyd ac adroddwyd hynny i Lywodraeth Cymru drwy TSIB. Deallwn y cedwir tystiolaeth o gyflogaeth gan yr undeb credyd sy'n adrodd i sicrhau diogelu gwybodaeth bersonol.

Mae'r adroddiad cynnydd diweddaraf i WEFO³⁷ yn nodi mai dim ond pedwar undeb credyd enillodd safon amgylcheddol lefel dau'r Ddraig Werdd, sy'n allbwn isel iawn o gymharu â'r targed o 17 o gofio mai dim ond ychydig dros

³⁶ Mae'r prosiect hefyd ar hyn o bryd yn cefnogi pedwar undeb credyd arall sy'n gweithredu'n llwyr y tu allan i'r ardal Cydgyfeirio sef Aberhonddu, Caerdydd, Casnewydd a Romcul gan ddod â chyfanswm yr undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect ledled Cymru i 17.

³⁷ Hyd at Fedi 2012.

flwyddyn sydd ar ôl gan y prosiect. Fodd bynnag nododd yr wybodaeth a ddychwelwyd ym Medi 2011 fod naw undeb credyd wedi mabwysiadu a phedwar wedi gwella eu systemau rheolaeth amgylcheddol sy'n codi peth dryswch am lwyddiannau'r prosiect yn y maes.

Mae'n parhau'n wir fod saith undeb credyd wedi mabwysiadu polisiâu diwygiedig ar gyfle cyfartal ac na fu unrhyw gynnydd i'r allbwn hwn ers mis Medi 2011. Mae'r saith arall yn gweithio tuag at fabwysiadu neu wella'r strategaethau hyn. Fodd bynnag wrth edrych ar adroddiadau cynnydd undebau credyd unigol, mae deg undeb credyd yn dweud eu bod un ai wedi mabwysiadu neu wedi gwella eu strategaethau neu systemau cydraddoldeb sydd unwaith eto'n awgrymu peth dryswch am yr union allbwn a gyflawnwyd. Yn gyffredinol byddai'n werth chweil i'r prosiect ganolbwyntio ar wella ei adroddiadau ar y meysydd trawsbynciol hyn o weithgaredd yn y flwyddyn cyflenwi sydd ar ôl.

4.3.3 Targedau Undeb Credyd Cam Dau

Dywedodd ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod targedau undeb credyd a ffurfiai ran o'u cytundebau cyllid SGEI yn eang ac yn amrywio'n sylweddol o ran nifer a math ar gyfer pob sefydliad. Dengys data a gawsom am y cyfnod Hydref 2010-Mehefin 2011 mai cynnydd cymysg a gafodd undebau credyd unigol. Dengys data a gafwyd gan TSIB ar yr hyn a gyflawnodd 15 undeb credyd o'u cymharu gyda'u targedau gwasanaeth ar gyfer tri chwarter cyntaf cam dau:

- ymddangosai fod tri undeb credyd³⁸ wedi gwneud cynnydd da iawn ar eu targedau blynyddol, ar ôl cyflawni'r cyfan heblaw un neu ddau o'u targedau;
- ymddangosai fod wyth undeb credyd wedi gwneud cynnydd rhesymol ar eu targedau blynyddol, gan gofio nad oedd y canlyniadau ar gyfer chwarter olaf 2011/12 at gael adeg ein hymchwil;

³⁸ Aberhonddu, Dragon Savers a Phen-y-bont ar Ogwr.

- roedd pedwar undeb credyd³⁹ wedi gwneud cynnydd gwael ar eu targedau blynyddol - nid oedd un wedi cyflawni unrhyw un o'u targedau a dim ond un o'u targedau oedd y tri arall wedi'i gyflawni.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i symleiddio Cytundebau Ariannu SGEI undebau credyd ar gyfer gweddill cam dau a'u halinio'n gliriach gyda thargedau lefel prosiect, dim ond ar ddau darged y bu'n rhaid i undebau credyd adrodd ers mis Hydref 2011 - sef aelodau newydd sy'n oedolion wedi eu hallgau'n ariannol a chynilwyr ifanc newydd (er mai dim ond ar gyfer aelodau newydd sy'n oedolion wedi eu hallgau'n ariannol y mae ganddynt gontract). Dangosodd ein gwaith maes yn ystod 2012 y croesawyd symleiddio'r targedau ar gyfer undebau credyd.

Fel y dangosir yn Ffigur 4 islaw, mae gan Lywodraeth Cymru gontract gydag undebau credyd i sicrhau targed Cymru-gyfan o recriwtio 9,198 o oedolion newydd sydd wedi eu hallgau'n ariannol a 1,205 pellach o gynilwyr ifanc newydd. O'r rhain disgwylid y byddai 7,154 o oedolion newydd wedi eu hallgau'n ariannol (ychydig yn is na tharged WEFO o 7,500) a 1,070 o gynilwyr ifanc newydd yn cael eu recriwtio o fewn y rhanbarth Cydgyfeirio. Dengys data a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru bod undebau credyd gyda chontract wedi rhagori ar eu targedau Cymru gyfan gyda'i gilydd. Mae'r rhai yn yr ardal Cydgyfeirio gyda'i gilydd eisoes wedi rhagori ar eu targedau tra bo rhai yn yr ardaloedd heb fod yn yr ardal Cydgyfeirio wedi rhagori ar eu targed ar gyfer cynilwyr newydd ifanc ac yn agos at gyrraedd eu targed oedolion newydd wedi eu hallgau'n ariannol.

³⁹ Caerdydd a'r Fro, Gateway, Haven a Romcul.

Ffigur 4: Cyflawni Targedau Cam Dau (fel ym Medi 2012)

Undeb Credyd	Aelodau newydd - Oedolion eu hallgau'n ariannol			Aelodau newydd - Cynilwyr Ifanc		
	Targed	Cyflawniad	Amrywiad	Targed	Cyflawniad	Amrywiad
ERDF yn unig						
Castell-nedd Port Talbot	801	1594	793	68	1,154	1,086
Credcer	336	112	-224	0	74	74
Cwm Llynfi	100	92	-8	0	24	24
Dragon Savers	1036	1275	239	119	532	413
Hafan	253	126	-127	112	24	-88
Islwyn	120	83	-37	0	30	30
LASA	264	935	671	300	199	-101
Merthyr Tudful	346	693	347	0	483	483
Pen-y-bont ar Ogwr	455	782	327	199	99	-100
Save Easy ⁴⁰	401	101	-300	7	10	3
ERDF Cyfun						
Gateway	875	705	-170	50	201	151
Gogledd Cymru	1,629	1607	-28	140	427	287
Smart Money	638	917	279	75	192	117
Cyfanswm ERDF	7,154	8,924	1,770	1,070	3,449	2,379
Cyfun Heb fod yn ERDF a Domestig						
Aberhonddu	191	56	-135	0	8	8
Caerdydd	480	131	-349	0	11	11
Casnewydd	450	729	279	50	173	123
Gateway	132	108	-24	0	81	81
Gogledd Cymru	606	641	35	35	48	13
Romcul	55	93	38	50	55	5
Smartmoney	130	240	110	0	2	2
Cyfanswm dim ERDF	2044	1998	-46	135	378	243
Cyfanswm Cymru-gyfan	9,198	10,922	1,724	1,205	3,827	2,662

Fodd bynnag mae perfformiad undebau credyd unigol yn erbyn eu targedau contract yn amrywio - gyda rhai megis Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Casnewydd a Smart Money eisoes wedi cyflawni llawer mwy na'u targedau contract. Roedd LASA hefyd yn perfformio'n dda o ran nifer yr oedolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol a gafodd eu recriwtio, er y medrid dadlau bod y targed a osodwyd sef 264 yn eithaf isel. Ymddengys fod

⁴⁰ Mae allbynnau Save Easy yn cyfeirio at eu darpariaeth yn Sir Benfro yn unig.

undebau credyd Save Easy, Credcer, Aberhonddu a Chaerdydd yn perfformio'n gymharol wael yn erbyn eu targedau gan nad ydynt hyd yma wedi cyflawni hanner y targed ar gyfer nifer yr oedolion wedi eu hallgau'n ariannol. Haven yw'r unig undeb credyd nad yw hyd yma wedi cyflawni'r naill na'r llall o'r targedau hyn - er ein bod yn ymwybodol fod gan bob undeb credyd flwyddyn arall i gyrraedd y targedau. Dengys ein gwaith maes fod chwech o'r wyth undeb credyd astudiaeth achos yr ymwelwyd â hwy yn hyderus y byddent yn cyflawni eu targedau (yn wir roedd rhai eisoes wedi gwneud hynny), credai un undeb credyd ei bod yn annhebyg iawn y byddent yn cyflawni eu targedau cyllid ac roedd yr wythfed yn ansicr.

Dengys ein gwaith maes gydag undebau credyd rai canfyddiadau diddorol pam fod rhai undebau credyd yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau, tra bod eraill yn ei chael yn anodd. Yn achos Save Easy, dadleuwyd fod Llywodraeth Cymru wedi eu hannog i ymestyn i ardal awdurdod lleol newydd (Sir Benfro) er fod ganddynt hwy eu hunain amheun mawr am wneud hynny, oherwydd y gwahaniaethau rhwng yr ardal newydd yn Hwlfordd a'u hardal graidd yn Llanelli. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'u diffyg cysylltiadau gyda'r gymuned leol yn Sir Benfro ac nid oeddent yn neilltuol o hyderus am eu gallu i gyflawni'r targed contract ar gyfer ymaelodi oedolion. Credid bod un o'r anawsterau allweddol yng nghyswllt Caerdydd yn gysylltiedig â'r ffaith fod targed aelodaeth yr undeb credyd wedi ei wyro i raddau helaeth at weithwyr sector cyhoeddus nad ydynt o reidwydd yn dod o fewn y diffiniad o'r targed allgau'n ariannol. Yn achos Haven, mae materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff wedi golygu na fu gan y prosiect yr adnoddau a ddisgwyliid ar hyd cam dau hyd yma.

4.3.4 Targedau TSIB Cam Dau

Mae TSIB yn dal i fod â contract gan Lywodraeth Cymru i reoli a dosbarthu'r taliadau grant SGEI i undebau credyd yn ogystal â chyflenwi cefnogaeth a chynghor i undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Canfu ein hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod mwyafrif y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd ar gyfer TSIB wedi eu cyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf a bod angen eu hadolygu (ar i fyny) yn ogystal â'u gwneud yn fwy

CAMPUS i adlewyrchu'r ddarpariaeth a wnaed ar gael. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer TSIB ac roedd hyn yn cynnwys gostwng y 20 Dangosydd Perfformiad Allweddol i nifer mwy hylaw (saith), a amlinellwyd islaw (Ffigur 5). Mae'n galonogol gweld fod gan bob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ganlyniadau y medrid eu cyflawni ac amserlenni ar gyfer darpariaeth - er na fanylwyd hynny yn Ffigur 5, roedd gan bob un o'r gweithgareddau a amlinellwyd ganlyniadau wedi eu gosod ac amcangyfrif o ddyddiad cwblhau neu amllder.

Ffigur 5: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cam Dau (Ail a Thrydedd Blynedd) ar gyfer TSIB⁴¹

- Darparu cymorth busnes i undebau credyd i wella cynllunio busnes a threfniadau llywodraethu i gydymffurfio gyda'r gofynion a osodir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
- Darparu adroddiadau cynnydd chwarterol ar undebau credyd yn cymryd rhan yn y prosiect yn ymwneud ag iechyd ariannol a solfedd, gweithgaredd SGEI a datblygiadau busnes
- Darparu cymorth sefydlogi busnes trylwyr lle dynodwyd fod risg o fethiant busnes yn seiliedig ar yr wybodaeth a gynhwysir o fewn adroddiad chwarterol yr undeb credyd
- Datblygu a gweithredu rhaglen o hyfforddiant a gynlluniwyd i wella a chynnal galluedd, gallu a phroffesiynoldeb cyfarwyddwyr, gwirfoddolwyr a chyflogeion taledig undebau credyd Cymru
- Hwyluso cydweithio agosach rhwng undebau credyd Cymru drwy gefnogi cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd ar gyfer ymchwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a rhannu arfer da. Lle'n briodol, cefnogi uno undebau credyd lle bo hynny er budd gorau'r aelodau a'r cymunedau a gaiff eu gwasanaethu gan yr undebau credyd hynny
- Datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu
- Prosesu hawliadau gan undebau credyd yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir o fewn y cytundebau i ddarparu Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol. .

Dengys ein hadolygiad o ddogfennau a chanfyddiadau gwaith maes y gallodd TSIB gyflawni ei oblygiadau contract hyd yma a chyflwynir trafodaeth yn Adran 4.5 am i ba raddau y bu'r rhain yn effeithlon.

⁴¹ O lythyr dyddiedig 4 Tachwedd 2011 gan Lywodraeth Cymru i TSIB.

4.4 Trefniadau Cyflenwi Prosiect

Yn yr adran yma adolygwn effeithlonrwydd rheolaeth a gweithrediadau prosiect. Er mwyn bod yn gynhwysfawr, rydym yn crynhoi ein barn ar y trefniadau cyflenwi a fabwysiadwyd ar gyfer cam un (Adran 4.4.1) cyn troi i drafod prosesau cam dau (Adran 4.4.2).

4.4.1 Trefniadau Cyflenwi Cam Un

Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod cryfderau a gwendidau yn y dull gweithredu ar gyfer cam un a gymerwyd gan y prosiect - er enghraifft ystyriwyd fod y Grŵp Cydlyn Cenedlaethol ar Undebau Credyd yn fecanwaith effeithlon ar gyfer dialog gydag undebau credyd a bod nifer o wersi wedi'u dysgu a fabwysiadwyd yn ddiweddarach yng ngham dau. Yn nhermau'r pethau negyddol gwnaethom ddweud na fu'r adnoddau ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i reoli'r prosiect yn ddigon cyson. Ymhellach roedd y darparwydd contract (Canolfan Cydweithredol Cymru) wedi ffocysu'n bennaf ar weinyddu cytundebau cyllido SGEI a chodwyd cwestiynau am effeithlonrwydd y gwaith datblygu undebau credyd.

4.4.2 Trefniadau Cyflenwi Cam Dau

Mae cam dau yn parhau i gael ei oruchwylio gan dîm prosiect craidd Llywodraeth Cymru, sydd yn awr ag adnoddau digonol, sy'n seiliedig o fewn yr Uned Trydydd Sector a thîm bychan yn TSIB (yn cynnwys Rheolwr Prosiect, Gweinyddydd Prosiect a thîm o gynghorwyr) yn gweithio fel isgontractwyr yn uniongyrchol gydag undebau credyd. Ers ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf cafodd aelod o staff Llywodraeth Cymru secondiad i TSIB ar gyfer cyfnod cam dau i ganolbwyntio'n llwyr ar y cynllun sefydlogi.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Prosiect Gweithredol yn ystod 2010, gydag aelodau'n dod o blith staff mewnol, i oruchwylio cyflenwi'r prosiect Undebau Credyd ac mae adborth yn awgrymu fod hyn yn parhau i weithio'n effeithlon.

Awgrymodd ein gwaith maes y bu gwelliant sylweddol yn y berthynas rhwng undebau credyd a Llywodraeth Cymru yn ystod cam dau, gyda nifer o

undebau credyd yn cyfeirio at berthynas waith agos a mwy o ymddiriedaeth rhyngddynt a Llywodraeth Cymru - er enghraifft nododd un fod staff Llywodraeth Cymru yn galw heibio swyddfeydd undebau credyd yn anffurfiol, a dywedodd eraill fod gan y tîm ddealltwriaeth dda o'r materion gweithredol allweddol sy'n wynebu undebau credyd. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn llawer mwy parod i wrando ar y sector nag yn y gorffennol a barn eu bod yn ystyried eu hunain fel 'hyrwyddwyr' ar gyfer y sector. Fel canlyniad ychwanegodd un 'does dim yn rhaid i ni chwarae gemau bellach.'

Gan bennaf roedd y Grŵp Cydlynu Cenedlaethol ar Undebau Credyd yn parhau i gael ei ystyried fel grŵp effeithlon ar gyfer rhannu arfer da er mai dim ond unwaith neu ddwy'r flwyddyn y mae'n cwrdd. Awgrymodd un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, fodd bynnag, nad oedd llawer o gyfathrebu rhwng y cyfarfodydd hyn gan awgrymu y gallai dulliau eraill o rannu arfer da fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

4.5 Cefnogaeth Cam Dau

Yn yr adran yma trafodwn yr elfennau cefnogaeth allweddol a fu ar gael i undebau credyd yn ystod cam dau, yn cynnwys cyfraniad TSIB (Adran 4.5.1 ac Adran 4.5.2), yr hyfforddiant drwy Brifysgol Fetropolitan Caerdydd (Adran 4.5.3) ac ymgyrch farchnata a hyrwyddo'r prosiect (Adran 4.5.4.).

4.5.1 Cefnogaeth Busnes TSIB

Dywedodd mwyafrif yr undebau credyd yr ymwelwyd â hwy yn ystod ein gwerthusiad eu bod wedi derbyn cyngor a chefnogaeth gan TSIB, er bod y farn yn gymysg am werth yr ymyriad. Yn fwy penodol:

- roedd un undeb credyd wedi cael cefnogaeth drylwyr iawn gan TSIB drwy'r cynllun sefydlogi busnes i helpu mynd i'r afael â materion llywodraethiant, i recriwtio a phenodi aelodau Bwrdd newydd a datblygu cynllun marchnata y barnwyd iddo fod yn ddefnyddiol iawn ac yn ganolog wrth sicrhau dyfodol yr undeb credyd;

- dywedodd tri undeb credyd iddynt gyrchu templed cynllun busnes neu gael help wrth ddatblygu cynllun busnes ond mewn cwpl o achosion, canfu'r undebau credyd na fu'r cynllun busnes a gynhyrchwyd fawr o werth iddynt. Mewn un achos, byddai undeb credyd wedi croesawu mwy o gefnogaeth wrth weithredu'r cynllun busnes a gynhyrchwyd;
- dywedodd o leiaf dri undeb credyd fod cynghorwyr TSIB wedi mynychu eu cyfarfodydd Bwrdd ac wedi rhoi cyngor yn y sesiynau hyn. Mewn un achos credid fod y cyngor a roddwyd wedi galluogi'r undeb credyd i gymryd ymagwedd fwy holistig at ei waith;
- dywedodd nifer o undebau credyd ei bod yn ddefnyddiol bod TSIB ar gael fel ffynhonnell gwybodaeth a chynghor pan oedd eu hangen. Felly, dywedodd un o'r sawl a gyfwelwyd 'fe fyddem wedi sylwi pe na fyddai yno' a soniodd un arall am yr 'wybodaeth ardderchog' oedd gan staff o'r sector pan ofynnwyd am gyngor neu wybodaeth;
- cyfeiriodd un undeb credyd at y ffaith iddynt gael cefnogaeth gan TSIB i ennill eu dyfarniad cynaliadwyedd amgylcheddol;
- cydnabu un undeb credyd y gefnogaeth gan TSIB wrth helpu i hwyluso uno rhwng eu hundeb credyd hwy ac undeb credyd arall;
- nododd dau undeb credyd eu bod, drwy TSIB, wedi mynd ar ymweliad i undeb credyd arfer da (un yn Swydd Efrog a'r llall yng Ngogledd Iwerddon). Teimlai un y bu eu hymweliad yn neilltuol o ddefnyddiol gan eu bod, fel canlyniad, wedi newid eu polisi yn dilyn yr ymweliad fel y gall cleientiaid gymhwyso am fenthyciad ar unwaith yn hytrach na gorfod cynilo am wyth wythnos i ddechrau. Ni theimlai'r llall y bu eu hymweliad yn neilltuol o ddefnyddiol gan fod eu gweithrediadau wedi eu datblygu ymhellach na'r undebau credyd yr oeddent wedi ymweld â hwy: 'ni welsom unrhyw undebau credyd oedd â chyfrifon cyfredol'. Ychwanegodd nad oedd TSIB wedi meddwl yn drwyadl am yr hyn yr oedd undebau credyd Cymru ei eisiau yn nhermau arfer da;
- cydnabu un undeb credyd a gredai na chafodd lawer o gefnogaeth gan TSIB eu bod wedi hwyluso sesiwn farchnata iddynt ond na fu'r sesiwn yma'n neilltuol o ddefnyddiol.

Roedd TSIB hefyd wedi cymryd rhan wrth arwain datblygiadau blaenllaw ar draws y sector megis ymchwilio cynnyrch sy'n cydymffurfio ag Islam a chynllun cerdyn debyd Cymreig blaendaledig. Credai nifer o undebau credyd fod yr astudiaeth ddichonolrwydd ar Gerdyn Debyd Cymru a gynhaliwyd gan TSIB yn ddarn da o waith er bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio ariannu'r cysyniad. Roedd un undeb credyd yn fwy beirniadol gan gredu fod yr astudiaeth yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r sector.

Efallai nad yw'n annisgwyl fod yr undebau credyd hynny a dderbyniodd gefnogaeth sylweddol yn gyffredinol yn fwy tebygol o ddweud fod ymyriad TSIB wedi gwneud gwahaniaeth i'w gwaith. Roedd y rhai nad oeddent wedi derbyn llawer o gefnogaeth yn tueddu i awgrymu nad oedd wedi gwneud cymaint â hynny o wahaniaeth i'w sefydliad. Yn gyffredinol cydnabuwyd yn eang mai dim ond effaith ymylol y gallai cefnogaeth TSIB ei gael ar undebau credyd.

4.5.2 Darpariaeth Hyfforddiant TSIB

Hyd yma mae TSIB wedi cyflenwi chwe chwrs hyfforddiant i undebau credyd ar themâu megis adnoddau dynol, marchnata a chyfryngau cymdeithasol, hyfforddiant i gyfarwyddwyr newydd a chynllunio olyniaeth yn ogystal ag ysgol haf. Nid yw pob undeb credyd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant a gynigiwyd ac awgrymwyd fod y rhai sydd fwyaf awyddus i dyfu a datblygu'n gyffredinol yn manteisio ar y cynnig. Mae hwn yn fater o bwys mawr i undebau credyd a hefyd TSIB - dywedwyd mai'r rhai sydd fwyaf o angen yr hyfforddiant (yn neilltuol gyfarwyddwyr undebau credyd) sydd leiaf tebyg o gymryd rhan. Awgrymod aelod o staff un undeb credyd y gallai fod yn werth i Lywodraeth Cymru ystyried gwneud hyfforddiant yn ofyniad unrhyw gyllid yn y dyfodol er mwyn gwella cyfranogiad.

Dim ond pump o'r undebau credyd yr ymwelwyd â hwy yn ystod ein gwaith maes a ddywedodd iddynt gymryd rhan mewn hyfforddiant dan arweiniad TSIB, ac mewn rhai achosion dim ond un aelod o staff oedd wedi mynychu unrhyw un o'r sesiynau hyn. O'r herwydd, roedd faint o adborth a gasglwyd yn weddol isel. Roedd y rhesymau a roddwyd am gyfranogiad isel yn cynnwys

anawsterau yn darbwyllo cyfarwyddwyr i fynychu hyfforddiant, yn arbennig os oedd yn golygu teithio i gyrsiau y tu allan i'w hardal awdurdod lleol, ymrwymadau gwaith (yn neilltuol ar gyfer staff rhan-amser) yn ogystal â'r ffaith y dywedodd nifer eu bod yn fwy tebygol o droi at ACBUL (Cymdeithas Undebau Credyd Prydeinig Cyf) neu Wasanaethau Undebau Credyd Mynediad i Undebau Credyd i Bawb (ACE) ar gyfer eu gofynion hyfforddiant.

Roedd y farn am ansawdd a gwerth yr hyfforddiant a ddarparwyd gan TSIB yn gymysg ymysg y cynrychiolwyr undebau credyd y cyfwelwyd â hwy. Ymysg y sylwadau a gafwyd roedd:

- roedd staff un undeb credyd yn neilltuol o feirniadol o gwrs TSIB a gyflwynwyd yn benodol iddynt ar lywodraethiant a dirprwyo gan deimlo nad oedd yr hyfforddiant ar y cywair priodol. Ymysg y sylwadau oedd 'fe wnaethant ddweud wrthym am bethau yr oeddem yn eu gwneud 15 mlynedd yn ôl' ac y bu'r profiad yn 'ymarferiad blwch ticio' tebyg i 'ddipio defaid';
- dywedodd dau aelod o staff un undeb credyd iddynt fynychu ysgol haf 2012 TISB ac wedi cael y digwyddiad yn 'eithaf defnyddiol'. Credid mai un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd cyflwyniad gan Undeb Credyd Bryste ar weithdrefnau bancio awtomatig y bu modd iddynt wedyn eu gweithredu yn eu hundeb credyd eu hunain.

4.5.3 Rhaglen Hyfforddiant Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Cynlluniwyd dau gwrs byr gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd - gynt Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC) - i'w cyflwyno i wirfoddolwyr undebau credyd, staff, rheolwyr a chyfarwyddwyr. Datblygwyd y cyrsiau mewn ymateb i ganfyddiadau prosiect ymchwil a gynhaliwyd gan UWIC yn dangos yr angen am hyfforddiant o'r fath yng Nghymru. Er nad yw'n fwriad gennym adolygu ansawdd a chynnwys yr hyfforddiant, mae'n glir fod cynnwys y ddau gwrs yn adlewyrchu'r meysydd datblygu sgiliau y dynododd y sector yn yr ymchwil gwreiddiol fod eu hangen.⁴²

⁴² Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd (2009) Adolygiad o'r mudiad undebau credyd yng Nghymru, Crynodeb Gweithredol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y ddau gwrs a ddatblygwyd gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd oedd:

Tystysgrif mewn Rheolaeth a Llywodraethiant Undebau Credyd a Chyrff Ariannol Cydweithredol	Tystysgrif mewn Rheolaeth a Llywodraethiant Undebau Credyd a Chyrff Ariannol Cydweithredol a Threfniadaeth
<ul style="list-style-type: none"> • Cynefino a chynllunio datblygu personol • Gwerthoedd cydweithredol, hanes ac egwyddorion llywodraethiant da undebau credyd • Llywodraethiant • Rheoli risg • Adroddiadau ariannol a Chydymffurfiaeth • Strategaeth a gweithrediadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynefino a chynllunio datblygu personol • Gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol • Deall yr amgylchedd ariannol a chyfreithiol • Deall systemau a gweithdrefnau • Deall y farchnad ar gyfer gwasanaethau undeb credyd • Gofal cwsmeriaid mewn sefydliad seiliedig ar aelodau

Y bwriad oedd cyflwyno pob cwrs byr fel chwe uned, gyda'r cwrs Rheolaeth a Llywodraethiant yn arwain at ddyfarniad datblygu proffesiynol Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a thystysgrif yn werth 60 credyd ar Lefel 6 (lefel 3 israddedig) Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ac wedi'i anelu at staff a chyfarwyddwyr undebau credyd. Byddai'r cwrs Gwaith a Threfniadaeth yn arwain at 30 credyd Fframwaith Credydau a Chymwysterau 4 (lefel israddedig 1) a byddai'n addas ar gyfer staff gweinyddol a gwirfoddol undebau credyd.

Fel y bu cyflwynodd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd un o'r cyrsiau (y cwrs Rheolaeth a Llywodraethiant). Cyflwynwyd hyn ar sail fisol o fis Medi 2011 ymlaen gan gyfuniad o ddarlithwyr mewnol Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ac arbenigwyr allanol. Roedd cymhorthdal ar gyfer y cwrs gyda'r TSIB yn talu 75% o'r ffioedd a'r undeb credyd yn talu 25%. Serch hynny cyfanswm o ddim ond 13 o gynrychiolwyr undebau credyd o saith undeb credyd fynychodd y sesiynau a chredir fod tua deg yn bresennol ym mhob sesiwn ar gyfartaledd. Adeg ein gwaith maes dim ond un oedd wedi cyflwyno eu hasesiad er mwyn cymhwyso am y 60 credyd ar Lefel 6 y Cymhwyster Fframwaith.

Deallir fod y TISB yn cynnal gwerthusiad ôl fynychiad o'r cwrs ar hyn o bryd er mwyn cael adborth ar yr hyfforddiant a dderbyniwyd. Yn ystod ein gwerthusiad fe wnaethom siarad gyda thri unigolyn oedd wedi mynychu'r cwrs - credai un iddo fod yn ddefnyddiol iawn a roedd sylwadau'r ddau arall yn llai cadarnhaol. Soniodd y tri unigolyn bod y cwrs yn golygu llawer iawn o waith a chredai fod faint o waith oedd ei angen y tu allan i sesiynau ffurfiol y cwrs wedi bod yn afresymol ac na wyddent amdano tan yn hwyr yn y dydd. Dywedodd dau unigolyn hefyd i'r cwrs gael ei reoli'n wael gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno'r ail gwrs i fyfyrwyr a gweinyddwyr o fewn y prosiect oherwydd y diffyg galw gan y sector ei hunan.

Awgrymodd cyfweleion ffyrdd y gellid gwella hyfforddiant ar gyfer y sector yn y dyfodol yn cynnwys darparu mwy o hyfforddiant lleol ar gyfer undebau credyd yn ogystal ag ymestyn y dull cyflenwi i gynnwys amgylcheddau dysgu rhithiol. Awgrymodd adborth y byddai hefyd yn werth chweil i ystyried darparu cwrs preswyl i ostwng y teithio rheolaidd i fynychu sesiynau yn rhywle fel Caerdydd.

4.5.4 Marchnata a Hyrwyddo'r Prosiect

Mae prif elfennau'r marchnata a'r hyrwyddo a wnaed ar lefel prosiect yn ystod cam dau wedi cynnwys:

- ymgyrch hysbysebion teledu yn ystod y dydd a ddarparodd 60 slot yn ystod y dydd ar ITV Cymru ar gost o £15,000 - cafodd gwylwyr eu cyfeirio un ai at rif llinell ffôn arbennig a ddangoswyd yn yr hysbysebion a gafodd eu trafod gan Undeb Credyd Gogledd Cymru neu dudalen gwefan a reolwyd gan ABCUL (www.findyourcreditunion.co.uk);
- rhaglen o sioeau ffordd undebau credyd a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2012: cynhaliwyd pedair hyd yma yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cwmbran, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful;
- cynhyrchu a dosbarthu adnoddau megis DVD hyrwyddo a thaflen hyrwyddo generig;

- penodi cwmni cysylltiadau cyhoeddus i gynorthwyo gyda sylw yn y cyfryngau a pharatoi astudiaethau achos i'w defnyddio yn y cyfryngau.

Mae'n debygol y bydd gweithgaredd hyrwyddo'r dyfodol hefyd yn cynnwys hysbyseb radio dros gyfnod y Nadolig.

Pan ofynnwyd iddynt pa mor effeithiol oedd gweithgareddau marchnata'r prosiect, canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn benodol ar yr ymgyrch hysbysebion teledu gan ychwanegu na wyddent y cynhaliwyd unrhyw hyrwyddo arall. Dengys data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru y gwnaed cyfanswm o 122 galwad i'r llinell ffôn arbennig fel canlyniad i'r hysbysebion teledu, gyda 20% ohonynt gan bobl o fewn ardal weithredu undeb credyd Caerdydd a 16% gan rai o fewn ardal weithredu Undeb Credyd Gogledd Cymru. Undebau credyd gwledig dderbyniodd y nifer leiaf o ymholiadau gyda chwech heb dderbyn unrhyw alwadau. Soniodd ABCUL hefyd am gynnydd yn y defnydd o wefannau undebau credyd Cymru yn ystod cyfnod Ionawr i Fawrth 2012. Er y gallai peth o'r cynnydd yma wedi digwydd beth bynnag oherwydd sylw cyffredinol yn y cyfryngau ar gyfer undebau credyd ddechrau 2012 fel canlyniad i newidiadau deddfwriaethol a sefydlu gwefan newydd 'canfod eich undeb credyd' ABCUL,⁴³ dywedodd rhai o blith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy y cynhaliwyd y recriwtio am gyfnod hirach yng Nghymru na thueddiadau recriwtio Lloegr. Nododd undebau credyd y cafodd cyfanswm o 90 aelod eu recriwtio fel canlyniad uniongyrchol i'r hysbyseb deledu (ar £123 fesul aelod newydd).

Yn wahanol i'r data cadarnhaol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd undebau credyd a gyfwelwyd mai dim ond 'llond dwrn o atgyfeiriadau' a gawsant ar y gorau fel canlyniad i'r ymgyrch hysbyseb teledu. Cydnabuwyd yn gyffredinol y bu'r ymgyrch teledu yn gam cyntaf pwysig i'r prosiect i farchnata darpariaeth undebau credyd yng Nghymru mewn modd rhagweithiol ac er y'i croesewid, awgrymodd rhai nad oedd mewn gwirionedd wedi gwneud mwy na

⁴³ www.findyourcreditunion.co.uk.

chrafu'r wyneb yn nhermau'r hyn oedd ei angen i sicrhau newid sylweddol mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o undebau credyd.

Mynegodd nifer eu pryderon y cafodd yr ymgyrch ei dangos braidd yn hwyr yn y prosiect a mynegodd eraill eu beirniadaeth am ansawdd yr hysbyseb ei hunan. Byddai llawer wedi croesawu ymgyrch hirach.

Awgrymwyd y dylai'r ymgyrchoedd marchnata a weithredid gan y prosiect yn y dyfodol ystyried y pwyntiau dilynol:

- y dylai'r negeseuon ganolbwyntio ar godi dealltwriaeth pobl o undeb credyd yn hytrach na dim ond codi ymwybyddiaeth o undebau credyd;
- y byddai gweithgareddau hyrwyddo yn manteisio o gyflwyno brand unedig ar gyfer undebau credyd Cymru;
- yr angen i ddenu sylfaen cleientiaid ehangach a mwy amrywiol i'r sector undebau credyd, a fyddai'n helpu tuag at gyflawni cynaliadwyedd.

4.6 CYLLID SGEI

4.6.1 Gweinyddu Cyllid SGEI

Credai rhanddeiliaid ac undebau credyd yn gyffredinol fod TSIB wedi gweinyddu cyllid SGEI yn effeithlon, ac yn ôl rhai undebau credyd roedd TSIB wedi defnyddio prosesau llawer mwy trwyadl na'r rhai a ddefnyddiwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yn ystod cam un. Er yn derbyn fod yn rhaid iddynt gyflawni gofynion adrodd WEFO, dywedodd un neu ddau o undebau credyd fod y gofynion am adroddiadau ariannol yn rhy feichus ac yn cymryd gormod o amser a galw am iddynt gael eu symleiddio, er enghraifft mae'n cymryd cryn amser i baratoi cyfriflenni banc i ddangos yr hyn a dalwyd.

4.6.2 Y defnydd o gyllid SGI

Dangosodd ein gwaith maes y defnyddiwyd cyllid refeniw SGEI yn bennaf i dalu am gyflogau staff gyda symiau llai wedi'u defnyddio ar gyfer costau gweithredol mewn rhai achosion. Gall cyllid SGEI gyfrif am hyd at 50% o

incwm rhai undebau credyd ac roedd consensws barn na allai undebau credyd weithredu fel y maent ar hyn o bryd heb y cyllid refeniw yma. Er mai dim ond dau fath o incwm (cyllid SGEI a llogau ar fenthyciadau) oedd gan y rhan fwyaf o undebau credyd y cyfwelwyd â hwy, roedd nifer fach wedi medru sicrhau ffrydiau incwm eraill yn cynnwys Cronfeydd Datblygu Gwledig, cyllid Cymunedau yn Gyntaf a chyllid gan awdurdodau lleol.

Roedd pob undeb credyd heblaw un yn yr astudiaethau achos wedi derbyn cyllid cyfalaf yn ystod y cam cyntaf. Defnyddiwyd yr arian yn bennaf i brynu ac adnewyddu safleoedd newydd neu safleoedd presennol. Mewn rhai achosion roedd hyn wedi rhoi presenoldeb ar y stryd fawr i undebau credyd am y tro cyntaf.

Roedd yr adborth gan undebau credyd yn awgrymu'n gryf na fyddai'r newidiadau hyn yn nhermau staff newydd neu ychwanegol yn ogystal â buddsoddi mewn safleoedd wedi digwydd oni bai am gyllid SGEI.

4.7 Datblygiad a Pherfformiad Undebau Credyd

Mae'r adran yma'n trafod perfformiad ariannol undebau credyd yng Nghymru a dderbyniodd gefnogaeth a hefyd na dderbyniodd gefnogaeth (Adran 3.7.1) a hefyd yn cyflwyno'r datblygiadau allweddol a weithredwyd ac a brofwyd gan undebau credyd a gefnogwyd (Adran 4.7.2). Mae wedyn yn ymchwilio ffyrdd y mae undebau credyd yn cydweithio (4.7.3) cyn troi'n olaf i drafod perfformiad a datblygiad undebau credyd cyffelyb (4.7.4).

4.7.1 Dadansoddi Perfformiad Ariannol

Mae'r adran yma'n adeiladu ar ein dadansoddiad o berfformiad undebau credyd a gynhaliwyd ar gyfer ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf. Eto aseswn berfformiad undebau credyd yn erbyn mesur safonol PEARLS a chaiff pob un o chwe mesur PEARLS⁴⁴ eu trafod ar gyfer y 17 undeb credyd a gymerodd ran yn y prosiect ar lefel Cymru gyfan. Mae'n werth nodi fod nifer o ffactorau

⁴⁴ Saif PEARLS am 'Protection, Effective Financial Structure, Asset Quality, Rates of Return, Liquidity, Signs of Growth'.

yn effeithio ar berfformiad ariannol undebau credyd, ac mai dim ond un ffactor o'r fath yw cyfraniad y prosiect Undebau Credyd. Lle bu data ar gael rydym wedi cymharu perfformiad undebau credyd a gefnogwyd gydag undebau credyd na chafodd eu cefnogi.⁴⁵

Caiff y mesur cyntaf, Diogelu, ei fesur gan gymhareb solfedd undeb credyd h.y. y raddfa o ddiogeliad sydd gan undeb credyd ar gyfer cynilion ei aelodau pe digwyddai diddymiad. Safon PEARL yw y dylai'r asedau net fod yn gyfartal neu'n fwy na 111% o gynilion (cyfranddaliadau ac adneuron). Dengys dadansoddiad o'r data:

- roedd gan naw⁴⁶ o'r 17 undeb credyd darged cymhareb solfedd PEARLS ym Medi 2012 (o gymharu â phump ym Mehefin 2011, dau ym Medi 2010 a dim ym Medi 2009). Roedd dau arall,⁴⁷ oedd wedi sicrhau'r gymhareb solfedd mewn blynyddoedd blaenorol, wedi colli'r targed hwn drwy drwch y blewyn (llai na 1%) ym Medi 2012;
- roedd 11 o'r 17 undeb credyd wedi cynyddu eu cymhareb solfedd rhwng Medi 2010 a Medi 2012;
- o gymharu, roedd pob un o'r chwech undeb credyd yng Nghymru na gefnogwyd gan SGEI wedi cyflawni'r gymhareb solfedd PEARLS oedd ei hangen ym Medi 2012 (cyfradd o 124% ar gyfartaledd) ac mae'r cymarebau hyn wedi parhau'n weddol sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ail, defnyddir dau gyfrifiad i asesu strwythurau ariannol effeithlon undebau credyd - cymhareb Benthyciadau Net i Gyfanswm Asedau a chymhareb Cyfalaf Sefydliadol i Gyfanswm Asedau. Mae'r gymhareb benthyciadau net i gyfanswm asedau yn mesur canran y cyfanswm asedau a fuddsoddiwyd yn gwneud benthyciadau. Mae benthyciadau i aelodau yn cynhyrchu incwm i'r undeb credyd drwy logau⁴⁸. Targed PEARLS yw cymhareb benthyciad i asedau o 70% i 80%. Dengys dadansoddiad o'r data berfformiad cyffredinol wan ar y mesur hwn, yn neilltuol:

⁴⁵ Ar gyfer cysondeb, rydym wedi cymharu'r data oedd ar gael ar gyfer chwe undeb credyd 'rheoli' sef Sir y Fflint Gyfan, BAG (Bargoed ac Aberbargoed), Marches, Red Kite, St Therese a Phlaid Cymru.

⁴⁶ Credcer, Dragon Savers, Gateway, Islwyn, LASA, Merthyr Tudul, Romcul, Smart Money a Gogledd Cymru.

⁴⁷ Castell-nedd Port Talbot a Llyfni.

⁴⁸ Os yw benthyciadau i asedau yn rhy uchel yna gall yr undeb credyd fod yn rhy agored i risg ar ad-dalu.

- dim ond tri undeb credyd⁴⁹ a gyflawnodd y targed 70-80% ym Medi 2012 ac roedd un undeb credyd arall⁵⁰ yn agos iawn at gyflawni'r mesur hwn ar 69.95%. Mae hyn yn welliant bach ar y ddau a gyflawnodd y targed ym Mehefin 2011 ond yn debyg i'r data llinell sylfaen ar gyfer mis Medi 2010.⁵¹
- mae perfformiad undebau credyd yn parhau i fynd yn wannach ar y mesur hwn wrth gymharu data ar gyfer Medi 2010 a Medi 2012 (h.y. symudodd 10 undeb credyd yr oedd eu cymarebau y tu allan i'r targed a argymhellwyd ymhellach o'r ystod targed dros gyfnod y prosiect rhwng Medi 2010 a Medi 2012).⁵² Mae'n achos o gryn bryder fod gan bedwar undeb credyd⁵³ gymhareb dan 30%;
- o gymharu, ni wnaeth yr un o'r undebau credyd nas ariannwyd gan SGEI gyflawni'r targed 70-80% ym mis Medi 2012⁵⁴ - roedd gan un gymhareb eithriadol uchel o dros 90% tra bod gan y gweddill gymarebau rhwng 36% a 54%.

Mae Cyfalaf Sefydliadol i Gyfanswm Asedau yn fesur o gyfalaf sefydliadol - neu gronfeydd cadw statudol - a gedwir gan undeb credyd fel modd (os metho popeth arall) o gyflawni ymrwymïadau. Mae undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r mesur hwn gan i ddeg⁵⁵ o'r 17 undeb credyd gyflawni'r targed 10% PEARLS ym Medi 2012, o gymharu gyda phump (o 14) ym Mehefin 2011, dau ym Medi 2010 a dim un ym Medi 2009. Roedd pob un o'r deg undeb credyd a gyflawnodd y targed wedi adrodd cynnydd yn eu cymhareb cyfalaf-asedau ers Medi 2010 tra mai dim ond ar gyfer dau undeb credyd⁵⁶ nad oedd wedi cyflawni'r targed yr oedd hyn yn wir.

⁴⁹ Casnewydd, Gateway a Save Easy.

⁵⁰ LASA.

⁵¹ Cyflawnodd tri undeb credyd (Caerdydd, Casnewydd a Save Easy) y mesur hwn ym Medi 2010.

⁵² Er y profodd Save Easy ostyngiad bach yn ei fenthyciadau fel canran asedau, roedd yn dal o fewn y cylch a argymhellir gan PEARLS.

⁵³ Credcer, Llynfi, Romcul a Gogledd Cymru.

⁵⁴ Seiliedig ar ddata ar gyfer pum undeb credyd.

⁵⁵ Pen-y-bont ar Ogwr, Credcer, Dragon Savers, Gateway, Islwyn, LASA, Merthyr, Romcul, Smart Money a Gogledd Cymru.

⁵⁶ Aberhonddu and Haven.

Yn drydydd, caiff y mesur Ansawdd Asedau ei gyfrif fel darpariaeth dyledion drwg undeb credyd (cyfanswm cymhareb tramgwydd i fenthyciadau). Mae hyn yn mesur y canran o falansau benthyciad ar y llyfrau sy'n agored i ddiffygdalu a dileu. Targed PEARLS yw na ddylai'r gymhareb tramgwydd fod yn fwy na 5% o'r benthyciadau un mis neu fwy mewn ôl-ddyled. Ym Medi 2011 roedd 11 o'r 17 undeb credyd wedi cyflawni'r targed hwn, o gymharu gyda phump (o 14) undeb credyd ym Mehefin 2011. Roedd gan un undeb credyd⁵⁷ gymhareb yn agos at 20% tra bod gan un arall dros 11%.⁵⁸ Roedd y sefyllfa wedi gwella mewn 12 undeb credyd rhwng Medi 2010 a Medi 2012 ac mae'n achos pryder iddo waethygu mewn pump.

Yn bedwerydd, caiff y mesur Cyfraddau Enilliad ei weithio allan fel cymhareb Treuliau Gweithredu i Asedau Cyfartalog undeb credyd. Caiff effeithiolrwydd gweithredol ei fesur drwy gymharu treuliau gydag asedau cyfartalog h.y. y gost sy'n gysylltiedig gyda rheoli asedau undeb credyd. Targed PEARLS yw 5% neu lai - er bod y sector, sy'n credu bod hyn yn darged afrealistig, yn tueddu i ystyried undebau credyd gyda tharged o 15% ac is fel bod yn effeithiol. Dengys data Medi 2011 mai dim ond un o'r 17 undeb credyd⁵⁹ a gyflawnodd darged 5% PEARLS (o gymharu â dim un o'r 14 undeb credyd yr oedd eu data ar gael ar gyfer Medi 2010) er bod gan ddeg arall gymhareb o dan 15%. Mewn 13 achos, roedd perfformiad undebau credyd ar y mesur hwn wedi gwella, gyda chymarebau'n nes at y targed nag ym Medi 2010, ond mewn tri achos mae costau gweithredu'n parhau dros 20% o asedau cyfartalog, ac mewn tri arall, mae'r gymhareb rhwng 15% a 20%.

Yn bumed, cymerir mesur Hylifedd undeb credyd fel y gymhareb Symiau Taladwy Tymor Byr i Gyfanswm Adneuon. Mae hyn yn mesur os yw'r undebau credyd yn dal cronfeydd arian hylif digonol (h.y. i fodloni ceisiadau am dynnu cynilion a'r holl oblygiadau talu am y 30 diwrnod nesaf). Targed cymhareb PEARLS yw i gronfeydd arian wrth gefn fod rhwng 15-20% o gyfanswm adneuon cynilion. Dengys y canfyddiadau mai dim ond un undeb

⁵⁷ Credcer.

⁵⁸ Haven.

⁵⁹ Islwyn.

creyd⁶⁰ gyflawnodd yr ystod targed yma a bod pob un o'r 16 undeb credyd arall yn parhau i ddal llawer iawn mwy o gronfeydd arian wrth gefn nag a ddymunir dan PEARLS, fel oedd yn wir ym Mehefin 2011. Dengys y data fod 11 undeb credyd yn dal mwy na 50% o gyfanswm adneuron a bod gan saith fwy na 70%. Er bod y sefyllfa hon yn golygu fod gan bob undeb credyd sefyllfa hylifedd tymor byr gryf, mae'n awgrymu agwedd orbwyllog at fenthyca neu anawsterau mewn cyflenwi benthyciadau yn ogystal â pherfformiad heb fod cystal ag y gallai fod yn nhermau gwneud i asedau weithio'n effeithiol i'r sefydliad.

Caiff y chweched a'r olaf o fesurau PEARLS, Arwyddion Twf, ei weithio allan fel Twf Cyfanswm Asedau undeb credyd, ac mae'r data'n awgrymu:

- profodd y cyfan ond un o'r 17 undeb credyd⁶¹ dwf yn eu sylfaen asedau mewn termau nominal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac adroddwyd lefelau da o dwf ar gyfer blynyddoedd blaenorol ers Medi 2009. Pan ystyrir chwyddiant a thwf safonol y diwydiant o 10%, fodd bynnag, dim ond wyth o'r 17 a adroddodd sylfaen asedau blynyddol mewn gwir dermau rhwng Medi 2011 a 2012. Tyfodd undebau credyd a ariennir gan SGEI ar gyfradd ychydig yn uwch nag undebau credyd nas cefnogir gan SGEI (twf blynyddol cyfartalog o 18.2% o gymharu gyda 11.7% ar gyfer 2011 i 2012) a dim ond un undeb credyd nas cefnogir gan SGEI adroddodd dwf blynyddol yn uwch na 10%.
- tyfodd nifer yr oedolion sy'n aelodau mewn 15 o'r 17 undeb credyd⁶² rhwng Medi 2011 a Medi 2012 sy'n fwy nag wyth o'r 14 undeb credyd a adroddodd dwf yn nifer yr oedolion sy'n aelodau rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (11 o 15 o Fedi 2009 a Mehefin 2011). Ar gyfartaledd, profodd undebau credyd a gefnogir gyfradd dwf flynyddol o 16% ac sy'n cymharu'n ffafriol gyda'r twf aelodaeth a adroddwyd gan undebau credyd nas cefnogir am y flwyddyn yn diweddu ym Medi 2012 ar 5%.
- roedd nifer yr aelodau ifanc wedi tyfu yn 14 o'r 17 undeb credyd⁶³ rhwng Medi 2011 a Medi 2012. Mae hyn yn nifer fwy nag yn y flwyddyn

⁶⁰ Gateway.

⁶¹ Heblaw Credcer.

⁶² Dim Credcer ac Islwyn.

⁶³ Dim Credcer, ROMCUL na Smart Money.

flaenorol - adroddodd wyth o'r 14 undeb credyd dwf yn nifer yr aelodau ifanc rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (12 o 15 o Fedi 2009 i Fehefin 2011). Ar gyfartaledd profodd undebau credyd a gefnogir gyfradd dwf flynyddol o 25% mewn nifer aelodau ifanc, cyfran lawer uwch o gymharu ag undebau credyd nas cefnogir ar tua 15%;

- dim ond 11 o'r 17 undeb credyd a lwyddodd i gynyddu eu portffolio benthyciadau yn y flwyddyn yn arwain at Fedi 2012. Roedd hyn yn cymharu gyda 10 o'r 14 undeb credyd a lwyddodd i gynyddu eu portffolio benthyciadau rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (gyda chynnydd tebyg yn 10 o'r 14 undeb credyd am y cyfnod Medi 2009 i Fehefin 2011). Adroddodd y chwe undeb credyd arall ostyngiad yn eu benthyciadau. Ar gyfartaledd, profwyd cynnydd o 10.8% mewn portffolio benthyciadau blynyddol ymysg undebau credyd a gefnogwyd yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2012, yr un fath nag undebau credyd nas cefnogwyd a adroddodd gynnydd o 10.9%.⁶⁴

4.7.2 Datblygiadau Allweddol

Credid yn eang fod argaeledd cyllid SGEI wedi helpu llawer o undebau credyd i ymestyn eu cynnyrch a gweithredu gwelliannau allweddol i'w gwasanaethau cwsmeriaid. Ar ôl dweud hyn mae'n bwysig nodi fod undebau credyd yn dechrau o sefyllfaoedd gwahanol iawn ac mae'n parhau'n wir fod gwahaniaeth amlwg yn yr ystod cynnyrch a gwasanaethau y gellir eu cyrchu ar draws undebau credyd. Roedd y prif ddatblygiadau a amlygwyd gan yr undebau credyd yr ymwelwyd â hwy yn cynnwys:

- cyflwyno ystod ehangach o gynnyrch cynilo a benthycia (megis cyfrifon cyfredol, cynllun cardiau debyd wedi'u blaendalu, yswiriant bywyd, cynlluniau benthycia nwyddau gwyn ac ati)
- gwella mynediad cyffredinol i'r undebau credyd drwy gynyddu'r nifer o bwyntiau casglu sydd ar gael ac ymestyn oriau agor;
- gwella profiad aelodau o wasanaeth undebau credyd (er enghraifft drwy ddarparu cyfleusterau codi arian i aelodau yn hytrach na rhoi sieciau sydd angen eu cyfnewid am arian mewn swyddfeydd post);

⁶⁴ Seiliedig ar ddata ar gael am bum undeb credyd nas cefnogir.

- darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd megis cynilwyr ifanc drwy ddarparu cyfrifon cynilo ysgol (gallodd un undeb credyd sefydlu 26 pwynt casglu ar draws ysgolion yn cynnwys yr holl ysgolion uwchradd o fewn ei hardal awdurdod lleol);
- cyflwyno cyfleusterau bancio ar-lein (er lle digwyddodd hyn mae wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddarllen manylion cyfrif a lawrlwytho cyfriflenni yn hytrach na thrafodion ar-lein).

Roedd yr holl undebau credyd heblaw un yn cydnabod y cafodd SGEI effaith enfawr ar eu sefydliad - pwysleisiwyd y bu'r cyllid yn neilltuol o fanteisiol wrth helpu undebau credyd i sefydlu sylfeini busnes cadarn y gallent dyfu arnynt. Dywedodd cynrychiolydd un undeb credyd o'r fath 'heb y cyllid fydden ni ddim lle'r ydym arni nawr'. Fodd bynnag mae faint o wella a llwyddiant ar draws y sector undebau credyd yn amrywio, sy'n arwain at i rai undebau credyd a rhanddeiliaid holi os oedd 'arian da wedi dilyn arian drwg' yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ariannu pob undeb credyd, beth bynnag oedd eu perfformiad contractiol neu sefyllfa ariannol.

Mae'r adborth o'r tu mewn i'r sector yn awgrymu fod cyllid SGEI wedi galluogi undebau credyd i dyfu yn nhermau cynyddu nifer eu haelodau a'u sylfaen asedau ond nad yw wedi arwain o reidrwydd at welliant mewn dyledion drwg. Yn wir mae dyledion drwg yn parhau'n uchel ac wedi gwaethygu yn un o'r undebau credyd yr ymwelwyd â hi.

Teimlid yn gyffredinol na fu newid sylfaenol yn nhermau hunan-gynaliadwyedd undebau credyd, ond y profwyd enillion cronrus bach dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'n parhau'n wir fod llawer o undebau credyd yn debygol o'i chael yn anodd gweithredu mewn dull ariannol gynaliadwy pan ddaw cyllid SGEI i ben yn 2013 - dim ond un neu ddau o'r undebau credyd yr ymwelwyd â hwy yn ystod ein gwerthusiad oedd yn ystyried eu bod 'bron yno' yn nhermau cynaliadwyedd, er bod adborth gan TSIB yn awgrymu y byddai tri undeb

credyd sy'n perfformio'n dda yn goroesi fel sefydliadau cynaliadwy pan ddaw cyllid SGEI i ben. Mynegwyd pryder am ddileu cronfeydd i'r sector ar unwaith gan y dadleuwyd fod hyn yn debygol o arwain at uno mewn argyfwng yn hytrach na uno wedi'i reoli rhwng undebau credyd - eto mae adborth gan TSIB y byddai tua chwech o undebau credyd yn perfformio'n dda yn manteisio o ddull cyllid tapr ar ôl 2013.

Ar gyfer yr undebau credyd hynny y teimlid eu bod yn perfformio'n rhesymol dda mewn termau ariannol, a lle mae incwm enilledig yn cynrychioli cyfran gymharol uchel o'r cyfanswm trosiant, mynegwyd pryder y gellid dileu elfennau o'u gweithrediadau er mwyn gostwng y bwlch rhwng incwm a enillwyd a chostau a gaiff eu talu ar hyn o bryd gan gyllid SGEI fel eich 'bod yn torri'r gôt yn ôl y brethyn'. Yn yr achosion hyn awgrymwyd y gallai'n rhaid iddynt roi'r gorau i weithgareddau 'braf eu cael' megis pwyntiau casglu ysgol neu wasanaeth fan symudol. O'r safbwynt hwn, cyfaddefodd un o'r rhai a gyfwelwyd 'pe bai'r tap yn cael ei droi i ffwrdd, byddem fe fyddem yn ymdopi.'

Ar gyfer eraill, yn neilltuol rai a allai fod wedi defnyddio'r cyllid i gyflogi staff am y tro cyntaf, ymddengys fod perygl y gallent fynd yn ôl i rôl llawer mwy cyfyngedig unwaith y daw'r cyllid i ben gan felly ofyn cwestiynau am gynaliadwyedd y cynnydd a wnaed. Dadleuodd yr undebau credyd hynny y medrid sicrhau cynaliadwyedd ar lefelau gwahanol o weithgaredd ac y gallent oroesi drwy fynd yn ôl at fodel cymunedol gyda llawer llai o uchelgais i wasanaethu grwpiau sydd wedi eu hallgau'n ariannol a gydag adnoddau llawer mwy cyfyngedig (er enghraifft, dibynnu ar wirfoddolwyr yn hytrach na staff cyflogedig).

Yn olaf, awgrymwyd fod llond dwrn o undebau credyd bach, yn neilltuol rai sy'n seiliedig mewn ardaloedd gwledig, y mae eu bodolaeth yn y dyfodol yn debygol o fod mewn perygl unwaith y daw cyllid SGEI i ben gan nad ydynt wedi medru gweithredu newidiadau digonol i'w model busnes o fewn y cylch presennol o gyllid i'w galluogi i oroesi yn yr hirdymor. Yn wir dadleuodd rhai mai'r cyfan a wnaeth y prosiect yw gohirio'r anochel mewn rhai achosion.

Yn gyffredinol roedd holl swyddogion TSIB o'r farn fod tua pum undeb credyd yn y ddau grŵp olaf yma gan eu bod yn agos at fethu medru cynnal eu lefel gyffredol o weithgareddau.

Er i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ddweud y bu gwelliannau mewn llywodraethiant undebau credyd, roedd rhanddeiliaid yn neilltuol o'r farn fod hon yn parhau'n wendid sylweddol i'r sector. Cydnabuwyd hefyd y bu'n anodd, os nad yn amhosibl, i'r prosiect gryfhau llywodraethiant undebau credyd, yn neilltuol ymysg yr undebau credyd hynny nad oes ganddynt lawer o awydd am newid. Mae adborth yn awgrymu fod cynllunio olyniaeth undebau credyd yn parhau'n fater mawr i'r sector sydd angen ei flaenoriaethu dros weddill cyfnod y prosiect. Awgrymodd cwpl o'r ymgynghorwyr y dylai'r prosiect ddatblygu dull mwy systematig o helpu undebau credyd i recriwtio aelodau Bwrdd newydd.

4.7.3 Cydweithio rhwng Undebau Credyd

Canfu ein gwaith maes, er bod y berthynas rhwng undebau credyd Cymru yn gyffredinol dda, fod lle ar gyfer mwy o gydweithio ar draws y sector.

Teimlid fod grwpiau ymbarél megis Cangen De a Gogledd Cymru o ABCUL yn ogystal â Grŵp Cydlynu Undebau Credyd Cymru-gyfan yn helpu i gadarnhau cysylltiadau ac yn galluogi trafodaethau am arfer da. Er enghraifft teimlid y bu Cangen Gogledd Cymru yn gyfrwng effeithiol ar gyfer adeiladu cysylltiadau rhwng undebau credyd yng ngogledd Cymru a pharatoi'r ffordd ar gyfer yr uno a ddigwyddodd maes o law, Fodd bynnag, yng ngoleuni'r uno, roedd cwestiynau'n awr yn cael eu gofyn am ddiben Cangen Gogledd Cymru. Cyfeiriodd nifer o undebau credyd hefyd at ddiffyg presenoldeb ABCUL wedi'i ariannu yng Nghymru a theimlid fod hynny wedi gostwng y pwyslais ar gydweithio rhwng undebau credyd Cymru yn gyffredinol.

Mae'n glir fod cyflwyno'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol yn caniatáu i undebau credyd i ymestyn eu hardaloedd cwlwm cyffredin wedi arwain at beth diffyg ymddiriedaeth rhwng yr undebau credyd a ganfu eu hunain yn gweithredu ac yn cystadlu yn yr un ardal.

Dynodwyd rhai enghreifftiau o brosiectau cydweithio yn ystod ein gwaith maes ond yn gyffredinol roeddent yn brin:

Mae Undebau Credyd Smart Money, Gateway, Casnewydd a Merthyr Tudful yn parhau i rannu Swyddog Adennill Dyled a Swyddog Cydgordio Ariannol. Er bod y cyllid lefel prosiect ar gyfer y gweithgareddau yn awr wedi dod i ben barnwyd fod y gwaith yn effeithiol a phenderfynodd undebau credyd barhau i ariannu'r swyddfeydd hyn o'u cronfeydd eu hunain. Yn yr un modd mae swyddogion casglu dyledion undebau credyd Credcer a Haven yn cydweithio yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â dyledion drwg - mae hyn wedi cynnwys rhannu arfer da yn ogystal ag ymweliadau ar y cyd i ddyledwyr.

Teimlid yn eang y gallai mwy o gydweithio ddigwydd o fewn y sector, yn neilltuol wrth ymchwilio opsiynau ar gyfer gweithio'n fwy effeithiol megis rhannu neu allanoli gwaith swyddfa gefn (er enghraifft y cynllun posibl i ymestyn datblygiadau bancio pilot ar-lein dan arweiniad Undeb Credyd Gogledd Cymru), prynu ar y cyd i sicrhau mwy o werth am arian yn ogystal â chontractio ar y cyd ar gyfer gwasanaethau neilltuol (er enghraifft gwasanaethau casglu dyledion).

4.7.4 Cymharu Undebau Credyd: Negeseuon Allweddol

Er ein bod wedi defnyddio data perfformiad ariannol undebau credyd na chaiff eu cefnogi yng Nghymru yn yr adran flaenorol, sylweddolwn y gall data o'r fath fod wedi ei wyro gan mai'r undebau credyd hynny nad ydynt yn cymryd rhan yn y prosiect yw'r rhai sydd leiaf tebygol i fod ag uchelgais i dyfu a datblygu. Rydym felly'n cyflwyno rhai o brif ganfyddiadau ein gwaith maes gydag undebau credyd rheoli (dau ohonynt yn seiliedig y tu allan i Gymru) yn yr adran hon.

Newidiadau mewn Aelodaeth: Mae pob un o'r tri undeb credyd cyffelyb wedi gweld twf yn nifer yr oedolion sy'n aelodau mewn blynyddoedd diweddar. Roedd y ddau undeb credyd yn Lloegr wedi tyfu'n gyflym mewn blynyddoedd diweddar, gydag aelodaeth un wedi cynyddu bedair gwaith drosodd ers 2004

(o 800 i 3,500) a'r llall yn awr â thua 7,500 o oedolion yn aelodau a sylfaen asedau o £4 miliwn. Roedd yr undebau credyd cyffelyb yng Nghymru wedi gweld twf llai a mwy organig yn nifer yr aelodau (tua 200 o aelodau ychwanegol y flwyddyn i'w aelodaeth weithgar bresennol o ychydig dan 1,400). Priodolodd y ddau undeb credyd o Loegr lawer o'u twf i Gronfa Twf yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd hyn wedi creu problemau yn y ddau achos - dywedodd un, oherwydd y Gronfa Twf, fod mwyafrif eu haelodau'n awr yn dod o gefndir cymharol amddifadus a dywedodd y ddau undeb credyd mai eu prif amcan wrth symud ymlaen oedd cael proffil aelodau mwy cytbwys. Dywedodd un undeb credyd y gallai ffynonellau cyllid allanol, megis ffocws y Gronfa Moderneiddio ac Ymestyn ar wasanaethau grwpiau sydd wedi eu hallgau'n ariannol, olygu risg uchel heb gydbwysio benthyca ansawdd gwael gyda benthyciadau ansawdd gwell danseilio eu hymdrechion i ddod yn hunangynhaliol.

Hunangynaliadwyedd: Roedd y tri undeb credyd cyffelyb mewn gwahanol sefyllfaoedd yn nhermau hunangynaliadwyedd: roedd yr undeb credyd sy'n seiliedig yng Nghymru yn hollol hunangynhaliol yn bennaf gan y tybiai ei fod yn sefydliad dan arweiniad gwirfoddolwyr gyda gorbenion a chostau staffio isel iawn. Dywedwyd fod y twf a welodd yr undeb credyd wedi ei reoli a bod y bwrdd cyfarwyddwyr wedi penderfynu canolbwyntio ar egwyddorion craidd cynilion a benthyciadau undeb credyd, yn hytrach nag ymestyn gweithgareddau i grwpiau sydd wedi eu hallgau'n ariannol drwy brosiect Llywodraeth Cymru. Mynegodd y ddau undeb credyd sy'n seiliedig yn Lloegr ddymuniad i ddod yn sefydliadau hunangynhaliol - mewn un achos, roedd gan y Bwrdd cyfarwyddwyr ymroddiad neilltuol i ddatblygu'r sefydliad i fod yn sefydliad hunangynhaliol a gellid dadlau eu bod yn agosach i'r pwynt hwn na'r ail gan fod mwyafrif llethol ei incwm yn dod o logau a ffioedd benthyciadau. Roedd yn debygol y byddai'r undeb credyd yma'n penderfynu rhoi'r gorau i gyllid grant posibl megis hynny o Gronfa Moderneiddio yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn gwella ansawdd cyffredinol ei lyfr benthyciadau a sicrhau ei dyfodol hirdymor ei hun. Ar y llaw arall, mae'r ail undeb credyd yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol gan ei

awdurdod lleol gan fod y Cyngor yn talu cyflogau ac argostau dau aelod o staff ac yn darparu safle di-rent.

Cynnyrch a Gwasanaethau: Yn debyg i'r sefyllfa ar gyfer undebau credyd a gefnogir gan SGEI, roedd gwahaniaeth sylweddol yn yr amrywiaeth cynnyrch a gwasanaethau a gynigir ar draws y tri undeb credyd cyffelyb. Cawsom fod y cynnyrch sydd ar gael yn yr undeb credyd cyffelyb yng Nghymru yn gyfyngedig i gynilion a benthyciadau cyffredin traddodiadol tra yn Lloegr roedd un o'r undebau credyd yn cynnig ystod eang o wasanaethau yn cynnwys CUCA (Cyfrif Cyfredol Undebau Credyd), cyfrifon 'pot jam' ar gyfer neilltuo rent ar gyfer landlordiaid preifat a chyfrifon cynilo a benthyciadau y gellir eu cymharu gyda'r darpariaethau sydd ar gael o fewn y mwyaf datblygedig o'r undebau credyd a gefnogir yng Nghymru.

Cryfderau a Gwendidau: Dywedodd y ddau undeb credyd o Loegr mai eu prif gryfderau oedd aelodau Bwrdd ymroeddedig a blaengar iawn (mewn un achos roedd yr undeb credyd wedi targedu recriwtio aelodau Bwrdd newydd mewn modd pwrpasol yn hytrach na dibynnu ar dwf organig) yn ogystal â bod â staff galluog a medrus. Yn ddi-ddorol, cyfeiriodd un at y diffyg ymwybyddiaeth cyhoeddus fel gwendid tra cyfeiriodd un arall at ddelwedd wael undebau credyd oherwydd eu bod yn cael eu gweld fel 'banc y tlotyn'.

4.8 Adborth gan gwsmeriaid undebau credyd

Er ei bod yn fwriad gennym gyfweld â buddiolwyr prosiect (h.y. unigolion wedi eu hallgau'n ariannol) yn ystod ein gwaith maes, mewn gwirionedd cyfwelwyd â chroestoriad o 25 o aelodau undebau credyd mewn saith undeb credyd gan y profodd yn haws i nifer fechan o undebau credyd gynnal cyfweiliadau gyda chwsmeriaid i ni wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth ar ddiwrnod ein hymweliad.

Gwelsom fod aelodau wedi clywed am eu hundeb credyd mewn amrywiaeth o ffyrdd ond mai'r dull mwyaf poblogaidd oedd drwy dafod leferydd - mewn llawer o achosion roedd aelodau'n adnabod aelod arall, staff neu wirfoddolwyr

cyn ymuno. Dywedodd nifer lai o'r rhai a gyfwelwyd iddynt fynychu cyflwyniad am yr undeb credyd yn eu man gwaith neu mewn lleoliad cymunedol megis eglwys leol. Roedd y rheswm dros ddefnyddio eu hundeb credyd hefyd yn gymysg gan fod ychydig dros hanner y rhai y gwnaethom siarad â hwy yn ystyried eu hunain fel cynilwyr tra mai benthycia oedd prif bwrpas yr aelodau eraill dros ddefnyddio'r undeb credyd.

Yn gyffredinol dywedodd aelodau mai prif nerth yr undebau credyd oedd staff/gwirfoddolwyr cyfeillgar a allai gynnig gwasanaeth personol, yn neilltuol o gymharu gyda banciau prif ffrwd. 'Mae'r staff yn gleniach ... dydyn nhw ddim yn edrych i lawr eu trwynau arnoch chi' a 'maen nhw'n gwybod beth ydi'ch enw chi ... a'ch rhif [aelodaeth]'. Tybid mai prif gryfder arall yr undeb credyd oedd arferion benthycia moesegol a chyfraddau llog isel ar fenthyciadau o gymharu â'r dewisiadau eraill, er enghraifft dywedodd un aelod 'mae'r cyfraddau llog yn wych ... fedrech chi ddim ei gael yn rhatach yn unman ... ac mae'r benthyciadau cyflym hynny ar y teledu i gyd yn lladrata arnoch chi'. Mae un astudiaeth achos neilltuol yn dangos y pwyntiau hyn:

Astudiaeth Achos Aelod A

Esboniodd un aelod, menyw oedd yn rhiant unigol ac ar fudd-daliadau, iddi ymweld â'r undeb credyd am y tro cyntaf yn yr ychydig wythnosau diwethaf i holi am fenthyciad ar ôl clywed amdani drwy gyfaill ei merch. Dywedwyd wrthi y byddai'n rhaid iddi agor cyfrif cynilo i wneud cais am fenthyciad a throsglwyddo peth o'i chredyd treth i'r cyfrif yma. Roedd yn dychwelyd i'r undeb credyd i gyflwyno ei chais am fenthyciad bach a fyddai'n ei galluogi i brynu rhewgell-rhewgist. Dywedodd yr aelod iddi dderbyn gwasanaeth 'rhagorol' gan 'staff cyfeillgar iawn nad ydyn nhw'n edrych i lawr arnoch fel mae banciau'n ei wneud'. Ymhellach cafodd ei synnu'n fawr gan y cyfraddau llog isel yr oedd yr undeb credyd yn eu cynnig, a dyna'r prif reswm pam iddi fynd atynt yn y lle cyntaf.

Awgrymodd ychydig o aelodau fod y gwasanaethau a gynigir i gwsmeriaid wedi dod yn fwy proffesiynol mewn blynyddoedd diweddar (fel y dangosir yn

astudiaeth achos aelod B) islaw ond mae'n glir na fu'r gwelliannau hyn yn gyson ar draws yr undebau credyd (fel y dangosir yn astudiaeth achos aelod C).

Astudiaeth Achos Aelod B

Roedd y fenyw, yn ei 50au ac mewn gwaith llawn-amser, wedi clywed am yr undeb credyd i ddechrau yn ei man gwaith yn yr awdurdod lleol rai blynyddoedd yn ôl. Roedd yr undeb credyd wedi ymweld â swyddfa'r cyngor i roi cyflwyniad a phenderfynodd ymuno'n bennaf am resymau dyngarol: 'Fe allwn i weld y manteision i'r gymuned'. Roedd wedi agor cyfrif cynilo a ddefnyddiai i brynu pethau 'neis eu cael' megis 'tripiau ac anrhegion Nadolig' - yn wir, diben ei hymweliad ar y dydd oedd codi arian o'i chynilon. Roedd presenoldeb lleol ar y stryd fawr yn bwysig iddi er ei bod yn dibynnu ar fanciau'r stryd fawr ar gyfer gweithgareddau bancio dydd i ddydd. Gan iddi fod yn aelod o'r undeb credyd ers cryn amser, soniodd am y 'gwelliannau mawr' a fu yn y ddwy flynedd ddiwethaf - 'rydych chi'n awr yn gallu cael arian dros y cownter a does dim rhaid i chi fynd â siec i swyddfa'r post. Mae'r swyddfa yn gymaint gwell nawr hefyd.'

Astudiaeth Achos Aelod C

Roedd dyn oedrannus wedi ymddeol wedi bod yn aelod o un undeb credyd am 11 mlynedd ac roedd wedi clywed amdano yn ei fan gwaith. Ei brif reswm am ymuno oedd ei ei fod yn cydymdeimlo â'r agenda cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n cael yr undeb credyd yn ffordd gyfleus i roi ychydig o arian o'r neililtu ar gyfer pethau annisgwyl. Yn gyffredinol roedd yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau er y teimlai fod oriau agor y pwynt casglu agosaf ato yn gyfyngedig ac y gallai fod yn fanteisiol i'r undeb credyd ymestyn eu horiau agor i gynnwys dydd Sadwrn. Dywedodd hefyd nad oedd yr undeb credyd mor effeithol a phroffesiynol â banc. Roedd y ddwy broblem fwyaf yn ymwneud â'r ffaith na allai'r undeb credyd gynnig gwasanaeth cyfrinachol gan y gallai pobl eraill glywed sgysiau a'r dull talu cyfyng o sieciau'n unig.

Nid yw'r gwendidau a amlygir yn Astudiaeth Achos Aelod C yn unigryw gan y soniodd aelodau undebau credyd eraill am broblemau tebyg yn eu hundeb credyd eu hunain am ddiffyg ystafell gyfweld breifat e.e. dywedwyd fod un swyddfa 'mor fach fel bod pawb yn clywed beth ydych chi'n siarad amdano'.

4.9 I ba raddau y cafodd argymhellion Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf eu gweithredu

Gwnaeth ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf gyfanswm o bump argymhelliad ac yn yr adran hon trafodwn i ba raddau y cafodd pob un ei weithredu.

Yn gyntaf, fe wnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn parhau i ariannu'r prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd. Digwyddodd hyn ac mae cyllid ar gael hyd fis Hydref 2013. Fodd bynnag, nid yw'n edrych yn debygol y bydd mwy o gyllid ar gael i'r sector ar ôl y dyddiad hwnnw.

Yn ail, fe wnaethom argymhell fod nifer lai o flaenoriaethau allweddol yn canolbwyntio ar dargedau Cynllun Busnes WEFO a dangosyddion cynaliadwyedd ariannol undebau credyd (fel y'u cyflwynwyd gan PEARLS) yn cael eu mabwysiadu a'u cytuno ar gyfer gweddill cyfnod cam dau. Gallodd Llywodraeth Cymru weithredu'r argymhelliad hwn yn rhannol gan eu bod wedi gostwng a symleiddio disgwyliadau contractiol SGEI i un allbwn a gafodd ei ddiffinio'n glir ac yr adroddwyd arno. Ni wireddwyd ymdrechion i weithredu targedau cynaliadwyedd ariannol undebau credyd er y rhoddwyd trefniadau ar waith i fonitro statws ariannol undebau credyd yn chwarterol. Unwaith eto mae hyn yn codi mater am amcan sylfaenol y prosiect ac os yw yno i ddigolledu undebau credyd am ddarpariaethau gwasanaeth na allent fforddio eu gwneud fel arall neu fel dull i ddatblygu'r sector per se.

Ein trydydd argymhelliad oedd y dylai buddsoddiad cyfalaf, os yn bosibl, a hefyd fuddsoddiad refeniw fod ar gael i undebau credyd yng Nghymru drwy'r prosiect. Mae cyllid refeniw wedi parhau i fod ar gael i 17 undeb credyd a rhoddodd Llywodraeth Cymru raglen cyllid cyfalaf yn ei lle drwy'r Gronfa Datblygu Cymunedol. Dim ond os y gallent ddangos y byddai'r cyllid yn

parhau i gyfrannu at eu datblygiad a thwf strategol y gall undebau credyd gael mynediad i'r cronfeydd cyfalaf hyn. Credwn ni fod hon yn ymagwedd resymegol a phriodol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw gyllid cyfalaf ar gael i'r sector ers gweithredu'r newidiadau hyn er y gwnaed dau gais. Gan nad ydym wedi adolygu'r ceisiadau hyn, ni allwn roi mwy o sylwadau am y rhesymeg am y penderfyniadau hyn i beidio dyfarnu cyllid.

Yn bedwerydd fe wnaethom argymell parhau gyda'r trefniadau cyflenwi cyfredol ar gyfer y prosiect a bod y gefnogaeth ar gael i undebau credyd yn dod yn fwy arbenigol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gweithredwyd yr argymhelliad hwn, yn neilltuol gyda secondiad swyddog o Lywodraeth Cymru i TSIB a defnyddio arbenigwyr allanol ar gyfer meysydd megis deddfwriaeth ac adnoddau dynol. Rhoddwyd ystyriaeth i'n hargymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio'r opsiwn o weinyddu trefniadau cyllido SGEI undebau credyd yn uniongyrchol er mwyn symleiddio a gostwng costau gweinyddu prosiect. Fodd bynnag, gan fod y trefniadau wedi gwella erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, penderfynodd y Bwrdd Prosiect Gweithredol y dylid parhau â'r trefniadau presennol hyd ddiwedd y prosiect ym Medi 2013.

Roedd ein pumed argymhelliad, yr olaf, yn ymwneud â'r angen i wella cyfathrebu a chysylltiadau ymysg undebau credyd, gyda golwg ar hyrwyddo arfer da ac ymchwilio cyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau/gwasanaethau. Byddai ein canfyddiadau yn ystod y cylch hwn o waith maes yn awgrymu fod cysylltiadau rhwng undebau credyd wedi cryfhau gan bennaf, er ei bod yn amhosibl gwybod os y medrir priodoli gwelliannau o'r fath i'r prosiect ei hun. Mae tystiolaeth i awgrymu fod y prosiect wedi hwyluso hyrwyddo arfer da rhwng undebau credyd ond yn llai felly yn nhermau hwyluso cyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau a gwasanaethau.

4.10 I ba raddau y mae'r Prosiect yn cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd

Mae dadansoddiad o nifer aelodau undebau credyd Cymru⁶⁵ yn dangos cynnydd o ychydig dan 10,000 aelod ers dechrau'r prosiect ym Medi 2010 - o 41,571 i 51,752 erbyn Medi 2012 (gweler Ffigur 6). Mae hyn yn gynydd blynyddol o 10.8% ar gyfer 2010/11 a 12.4% ar gyfer 2011/12. Wrth ystyried y data ar gyfer undebau credyd gyda chontract SGEI yn unig, roedd cynnydd blynyddol 2010/11 ychydig yn uwch ar 12.8% tra bod cynnydd 2011/12 yn sylweddol uwch ar 19.0%. Mae cynnwys dau undeb credyd a ymunodd â'r prosiect ar ryw amser yn ystod y cyfnod yn gwyro rhywfaint ar y data - roedd gan undebau credyd Llynfi ac Islwyn ychydig dros 2,000 aelod ym Medi 2011 pan y'u disgrifiwyd fel undebau credyd nad oedd yn cael cefnogaeth a gydag ychydig dros 2,100 aelod ym mis Medi 2012 pan gawsant eu disgrifio fel undebau credyd oedd yn derbyn cefnogaeth. Medrir priodoli'r holl ostyngiad yma mewn aelodaeth undebau credyd na dderbyniodd gefnogaeth i'r newid hwn. Heb gynnwys y ddau undeb credyd yma, roedd twf aelodaeth undeb credyd gyda chontract SGEI rhwng 2011 a 2012 yn 13.7% o gymharu â thwf o 3% yng ngweddill yr undebau credyd na dderbyniodd gefnogaeth.

Ffigur 6: Newidiadau yn nifer yr oedolion sy'n aelodau o Undebau Credyd

	Medi 10	Medi 11	Medi 12
Cyfanswm nifer yr oedolion yng Nghymru sy'n aelodau	41,572	46,062	51,752
Treiddiad marchnad undeb credyd ⁶⁶	1.69%	1.84%	2.08%
Aelodau Undebau Credyd gyda Chontract SGEI	34,970	39,437	46,945
Aelodau Undebau Credyd heb fod â Chontract SGEI	6,602	6,625	4,807


Er y bu cynnydd rhesymol yn nifer yr aelodau undebau credyd hyd yma, ac yn wir yr ymddengys y gellir priodoli'r cynnydd hwn i waith undebau credyd gyda chontract SGEI, mae'n bwysig dweud os y cyflawnir targed y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd o 142,000 aelod erbyn 2010 (ac felly dreiddiad o tua 6%), yna mae angen i'r prosiect gynnal cynnydd blynyddol o tua 13% yn sylfaen aelodaeth gyffredinol undebau credyd gyda chontract SGEI (a thybio wrth gwrs nad oes unrhyw newid yn lefelau aelodaeth yr undebau credyd heb gontract SGEI). Yn ymarferol mae hyn yn golygu fod angen i rifau aelodaeth

⁶⁵ Darparwyd gan TSIB.

⁶⁶ Fel cyfran o'r holl boblogaeth 16+ oed a ddarparwyd gan ONS.

2012/13 gynyddu gan dros 6,000; gan 7,600 erbyn 2013/14 a gan 8,500 erbyn 2014/15 fel y dangosir yn Ffigur 7 islaw. Bydd cyflawni cynnydd o'r fath yn her neilltuol gydag amser, yn arbennig os oes angen i undebau credyd ostwng amser staff fel canlyniad i ddiweddu cyllid SGEI.

Ffigur 7: Aelodaeth Undebau Credyd Contract SGEI - Targedau Gofynnol



Nid yw'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn rhoi targed penodol ar gyfer cynyddu nifer aelodau ifanc undebau credyd Cymru er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r prosiect. Fodd bynnag mae'n werth nodi y bu cynnydd rhesymol yn nifer aelodau ifanc ers dechrau'r prosiect o 9,090 ym Medi 2010 i 11,218 erbyn Medi 2012. Mae undebau credyd gyda chontract SGEI wedi perfformio'n well na'u cymheiriaid, yn arbennig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, hyd yn oed ar ôl ystyried y byddai data ar gyfer dau undeb credyd sydd â chontract SGEI cyfredol (ar tua 700 yn 2011 a 800 yn 2012 ar gyfer y ddau) wedi eu cynnwys fel allbynnau heb SGEI yn ystod 2010 a 2011, fel y dangosir yn Ffigur 8.

Ffigur 8: Newidiadau yn nifer aelodau ifanc Undebau Credyd

	Medi 10	Medi 11	Medi 12
Cyfanswm nifer aelodau ifanc Cymru	8,090	9,078	11,218
Aelodau Ifanc Undebau Credyd gyda Chontract SGEI	6,582	7,361	10,100
Aelodau Ifanc Undebau Credyd heb gontract SGEI	1,508	1,717	1,118

Ail darged y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yw cynyddu sylfaen asedau undebau credyd Cymru o'i linell sylfaen o £21m i £75m. Bu cynnydd blynyddol cyson yn sylfaen asedau undebau credyd Cymru ers 2010, gyda'r twf ymysg undebau credyd gyda chontract SGEI yn fwy nag undebau credyd heb gontract SGEI, hyd yn oed lle caiff data ar gyfer y ddau undeb credyd a ymunodd â'r prosiect yn 2012 eu tynnu allan (fel y dangosir yn Ffigur 9). Caiff y gostyngiad yn sylfaen asedau undebau credyd heb gontract SGEI dros amser ei esbonio drwy gynnwys data dau undeb credyd yn nata contract SGEI erbyn 2012 - mewn gwirionedd mae sylfaen asedau'r chwe undeb credyd y tu allan i'r prosiect wedi cynyddu dros gyfnod er enghraifft. o £4.0m ym Medi 2011 i £4.4m ym Medi 2012, ond ar gyfradd is nag undebau credyd gyda chontract.

Ffigur 9: Newidiadau yn Sylfaen Asedau Undebau Credyd

	Medi 10	Medi 11	Medi 12
Cyfanswm Sylfaen Asedau Undeb Credyd Cymru	£23.8m	£27.5m	£30.7m
Sylfaen Asedau Undebau Credyd gyda Chontract SGEI	£19.1m	£22.2m	£26.3m ⁶⁷
Sylfaen Asedau Undebau Credyd heb Gontract SGEI	£4.7m ⁶⁸	£5.2m ⁶⁹	£4.4m ⁷⁰

Os yw targed y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd o £75m i gael ei gyflawni (a thybïo bod sylfaen asedau undebau credyd heb gontract SGEI yn parhau yn ei unfan), mae'n rhaid i'r prosiect sicrhau cynnydd blynyddol o 14% yn sylfaen asedau'r undebau credyd a gefnogir (fel y dangosir yn Ffigur 10). Credwn mai dim ond os oes cefnogaeth ariannol ar gael ar ôl 2014 y medrir

⁶⁷ Yn cynnwys Undebau Credyd Islwyn a Llanelli a ymunodd â'r prosiect yn ddiweddarach. Heb gyfrif y ddau undeb credyd hyn, byddai'r ffigur tua £25.4 miliwn.


⁶⁸ Seiliedig ar wyth undeb credyd - yn cynnwys undebau credyd Islwyn a Llyfni a ymunodd â'r prosiect yn ddiweddarach.

⁶⁹ Seiliedig ar wyth undeb credyd.

⁷⁰ Seiliedig ar chwe undeb credyd - erbyn 2012 roedd Islwyn a Llyfni wedi ymuno â'r prosiect.

cyflawni'r gyfradd twf flynyddol hon - heb gyllid, mae cyflawni targed y Cynllun Gweithredu'n parhau'n afrealistig iawn.

Ffigur 10: Sylfaen Asedau Undebau Credyd gyda Chontract SGEI - Targedau Gofynnol



Trydydd targed allweddol y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o undebau credyd yng Nghymru erbyn Medi 2013. Gan nad oedd y Cynllun Gweithredu yn rhoi unrhyw ddata llinell sylfaen ar ymwybyddiaeth o undebau credyd, yn 2011 aeth Llywodraeth Cymru ati i fesur a monitro ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy Arolwg Omnibws Cymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o gwestiynau i'w gofyn i'r boblogaeth gyffredinol drwy Arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd gan Beaufort Research Cyf ym mis Tachwedd 2011⁷¹ ac eto ym Mehefin 2012.⁷² Mae'n fwiad gan Lywodraeth Cymru i barhau i ddefnyddio'r arolwg er mwyn olrhain newidiadau mewn ymwybyddiaeth.

Hyd yma mae canfyddiadau'r arolwg wedi dangos lefel weddol dda o ymwybyddiaeth o undebau credyd yng Nghymru gydag ychydig dros hanner y rhai a arolygwyd yn dweud eu bod yn gwybod am undebau credyd. Ni fyddai'n realistig disgwyl unrhyw gynnydd sylweddol mewn lefelau ymwybyddiaeth dros gyfnod o chwe mis ac yn wir arhosodd lefelau ymwybyddiaeth yn weddol

⁷¹ Cynhaliwyd 1008 o gyfweiliadau gydag oedolion 16 oed a throsodd ymhlith y boblogaeth yn breswyl yng Nghymru.

⁷² Cynhaliwyd 1006 o gyfweiliadau gydag oedolion 16 oed a throsodd ymhlith y boblogaeth yn breswyl yng Nghymru.

sefydlog gyda 52% o ymatebwyr ym mis Tachwedd 2011 a 51% o ymatebwyr ym Mehefin 2012 yn dweud eu bod yn gwybod am undebau credyd. Yn gyffredinol roedd ymwybyddiaeth o undebau credyd yn ymddangos yn uwch yng Ngogledd Cymru (er enghraifft 64% ym mis Tachwedd 2011 a 52% ym Mehefin 2012) gydag ymwybyddiaeth yn is yn y Cymoedd (31% ym mis Tachwedd 2011 a 45% ym Mehefin 2012). Mae angen gofal wrth ddehongli unrhyw newid yn y data dros gyfnod oherwydd y ffordd y cynhelir arolwg Omnibws Beaufort ac amrywiadau mewn cynllunio samplau.

Roedd ymwybyddiaeth yn gyffredinol well ymysg grwpiau hŷn (yn neilltuol rai 55-64 oed yn 59%) nag ymysg pobl ifanc (ar 35% ymysg rhai 16-24 oed) ac roedd hyn yn neges gyson yn y ddau arolwg.

Canfuwyd fod ymwybyddiaeth o undebau credyd yn weddol gyson ar draws dosbarthiadau cymdeithasol, gyda'r lefelau ymwybyddiaeth uchaf ymysg rhai o grwpiau rheoli a phroffesiynol a lefelau is ymysg gweithwyr llaw lled-fedrus a gweithwyr heb grefft. Efallai fod hyn yn ganfyddiad diddorol o gofio fod polisi Llywodraeth Cymru yn targedu y rhai a allgauwyd yn ariannol yn benodol.

Yn ystod arolwg Tachwedd 2011, dywedodd 6% o'r 52% o'r ymatebwyr hynny a fynegodd eu bod yn gwybod am undebau credyd eu bod yn aelod o undeb credyd ar hyn o bryd, er i'r cyfran gynyddu i 12% yn y Cymoedd. O'r rhai nad oeddent yn gwybod am undebau credyd ond nad oeddent yn aelodau, y rhesymau a nodwyd amlaf dros beidio bod yn aelod oedd nad oeddent ei angen (35%), nad oeddent beth yw undeb credyd (11%) a ddilynwyd gan nad oeddent eisiau ymuno (9%). Yn yr un modd yn ystod arolwg Mehefin 2012 o'r 51% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gwybod am undebau credyd, dywedodd 7% eu bod yn aelod o undeb credyd ar hyn o bryd. Roedd y rhesymau dros beidio bod yn aelodau yr un rhai ag ar gyfer arolwg Tachwedd 2011 er bod y gyfran o ymatebwyr na wyddent beth oedd gwaith undeb credyd wedi gostwng o 9% i 3%.

Yn nhermau cynyddu'r nifer o wirfoddolwyr gweithgar undebau credyd (o sylfaen o 754 yn 2009 i 1,000 erbyn Mawrth 2013), dengys adroddiad

diweddaraf Medi 2012 a gynhyrchwyd gan y prosiect fod 893 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yng ngwaith 18 undeb credyd gan gynrychioli cynnydd iach ar y ffigur llinell sylfaen. Nid oes gennym unrhyw ddata ar gyfer y chwech arall o undebau credyd na chefnogwyd gan SGEI i allu asesu os cyflawnir targed Mawrth 2013 ai peidio.

Roedd y pumed targed, a'r olaf, a gynhwysir yn y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn ymwneud â darpariaeth cefnogaeth i undebau credyd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Canfu ein gwaith maes ac adolygiad dogfennau a gynhaliwyd yn ystod 2011 fod TSIB wedi cynnal adolygiadau o'r fath gyda phob undeb credyd cyn Medi 2011.

5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Yn yr adran hon, amlinellwn ein casgliadau cyffredinol ac yn neilltuol ailedrych os yw amcanion y prosiect, fel y nodir yn y dogfennau gwreiddiol, yn cael eu cyflawni yn ogystal â gwneud saith argymhelliad sy'n weithredol ar gyfer cyfnod y prosiect a hefyd ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Erys polisi Cymru yn gyffredinol gefnogol i'r sector undebau credyd yng Nghymru, serch fod camau gweithredu a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r drafodaeth am p'un ai yw disgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r sector yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgau yn hytrach na datblygu sector undeb credyd hunangynaliadwy - a ph'un ai yw'r ddau nod yn gwrthdaro. Mae'r anawsterau sy'n gysylltiedig â dilyn y ddau amcan hyd yn oed yn ddyfnach ar gyfer undebau credyd wrth iddynt ddechrau ar flwyddyn olaf eu cytundebau cyllid SGEI - gyda nifer yn awr yn wynebu penderfyniadau hollbwysig am ba lwybr i'w gymryd o gofio fod cyllid ar ôl 2013 yn edrych yn annhebyg.

Rydym o'r farn fod angen i Lywodraeth Cymru egluro ei pholisi yn y maes hwn ac awgrymwn os mai nod polisi hirdymor yw hyrwyddo gwasanaethau ariannol i unigolion wedi eu hallgau'n ariannol, yna fod dadl gref dros gyllid digolledu parhaus i ddarparu gwasanaethau o'r fath, o bosibl drwy fecanwaith Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn hytrach na grant. Fodd bynnag, os mai amcan cyllid o'r fath yw sicrhau y darperir gwasanaethau i'r nifer fwyaf o bobl sydd wedi eu hallgau'n ariannol ar hyn o bryd ar y gost isaf, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried os gallai darparwyr gwasanaeth heblaw undebau credyd fod mewn sefyllfa i gynnig gwasanaeth o'r fath ac felly os dylid caffael y gwasanaeth.

Os yw Llywodraeth Cymru (un ai yn lle neu'n ogystal â'r nod o ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd wedi eu hallgau'n ariannol) yn parhau â'i hymrwymiad i adeiladu undebau credyd ariannol gynaliadwy fel nod polisi cyhoeddus - mewn geiriau eraill, fel amgen neilltuol foesegol yn lle defnyddio darparwyr masnachol gwasanaethau ariannol - yna credwn y bydd angen iddi

fabwysiadu ymagwedd gwahanol ac ar wahân i ddarparu cyllid craidd i undebau credyd yn y dyfodol. Dylid wedyn ddarparu cyllid wedi'i dapro i nifer lai o undebau credyd sydd wedi profi - erbyn mis Medi 2013 - eu gallu i dyfu nifer eu haelodau a'u sylfaen asedau tra'n cynyddu'n cyfran o refeniw a gynhyrchwyd o incwm a enillwyd wedyn am gyfnod pellach (o ddim mwy na thair blynedd), ond gyda thargedau'n cyfeirio'n llwyr at y tri dangosydd hyn. Dylai'r ffrwd cyllid yma fod yn hollol ar wahân i gyllid drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl sydd wedi eu hallgau'n ariannol.

Argymhelliad 1: Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro ei blaenoriaethau ar gyfer undebau credyd a darpariaeth gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol er mwyn gostwng y gwrthdaro mewn gofynion sydd ar y sector ar hyn o bryd.

Argymhelliad 2: Yng ngoleuni hyn (ac yn amodol ar bwysau ar y gyllideb), byddem yn argymhell ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyllid parhaus yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol i bobl sydd wedi eu hallgau ac yn cynnal astudiaeth cwmpas i ymchwilio os y gallai sefydliadau eraill perthnasol (h.y. gyda thrwydded FSA) fod yn barod i dendro i ddarparu gwasanaethau o'r fath ac a fyddai hynny'n ymarferol. Gwyddom fodd bynnag y gallai darparwyr eraill fethu cynnig gwasanaethau tebyg i'r rhai sydd ar gael drwy undebau credyd, megis cymryd adneumon, ac na fyddent o reidrwydd wedi eu diogelu gan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Cyhoeddus.

Argymhelliad 3: Os yw Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddatblygu rhwydwaith ariannol gynaliadwy o undebau credyd ar ôl 2013 fel amcan polisi ynddo'i hun, yna rydym o'r farn y dylai gymryd agwedd galetach i sicrhau gwell gwerth am arian o'r buddsoddiad. Yn neilltuol dylai:

- Adolygu perfformiad hyd yma yr undebau credyd a ariannwyd gan SGEI (yn defnyddio monitro TSIB a'r dystiolaeth o'r gwerthusiad hwn) i benderfynu pa rai sydd wedi llwyddo orau yn nhermau cynnydd tuag at gynaliadwyedd ariannol, a thyfu yn nhermau aelodau ac asedau ac

wedyn ganolbwyntio cefnogaeth yn y dyfodol ar y rhai sydd yn amlwg ar lwybr twf derbyniol;

- Ystyried darparu cyllid craidd ychwanegol (refeniw a chyfalaf) i'r undebau credyd a dargedwyd am dair blynedd bellach ond ar sail tapro lawr yn erbyn cynlluniau busnes credadwy sy'n dangos sut y gellir sicrhau cynaliadwyedd erbyn 2016;
- Dileu gofynion ar yr undebau credyd hyn i dargedu ymdrechion recriwtio a thwf yn benodol at unigolion sydd wedi eu hallgau'n ariannol a chytuno ar dargedau ar gyfer twf aelodaeth, twf asedau a'r canran o drosiant sy'n incwm a enillwyd;
- Adolygu cefnogaeth yn flynyddol a thynnu cronfeydd o unrhyw undebau credyd sy'n methu cyflenwi.

Er y gwrthdaro hyn mewn materion polisi credwn fod y prosiect yn gwneud cyfraniad rhesymol at ddatblygu mudiad undebau credyd cryf ac effeithiol yng Nghymru - y prif fater yw diffyg cysondeb mewn datblygu o un undeb credyd i'r llall.

Mae'r prosiect yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei dargedau a ariennir gan WEFO ar gyfer yr ardal Cydgyfeirio a chredwn y dylai'n awr ganolbwyntio ei ymdrechion ar gyrraedd y targedau gweddilliol, yn neilltol dargedau trawsbynciol y prosiect. Mae perfformiad undebau credyd unigol wrth gyflawni eu hoblygiadau a ariennir gan SGEI yn amrywio'n sylweddol a gall Llywodraeth Cymru ddymuno adolygu'r trefniadau sydd ar waith o fewn tair undeb credyd sy'n tanberfformio, yn neilltuol mewn achosion lle'r ymddengys yn annhebygol iawn y caiff targedau eu cyflawni.

Rydym o'r farn fod TSIB, y darparwyd a gontractiwyd gan Lywodraeth Cymru, i raddau helaeth yn cyflawni ar ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a bod ganddo brosesau effeithol ar waith i weinyddu cytundebau SGEI. Fodd bynnag awgrymodd y dystiolaeth o'r tu mewn i'r sector undebau credyd mai effaith ymylol yn unig a gafodd y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarparwyd drwy TSIB ar y mwyafrif o undebau credyd. Dangosodd ein gwaith maes

hefyd rai materion yn ymwneud ag ansawdd a phriodoldeb y gefnogaeth a wnaed ar gael gan nad oedd disgwyliadau nifer o undebau credyd wedi eu cyflawni. Rydym o'r farn y dylai TSIB barhau i weithredu fel ffynhonnell gyffredinol o wybodaeth a chyngor i'r sector ond y dylai ganolbwyntio ei ymyriad a'i hyfforddiant ar yr undebau credyd hynny sydd angen cefnogaeth o'r fath ac sy'n gallu gweld gwerth derbyn hynny.

Er y dynodwyd gwelliannau mewn llywodraethiant a safonau cydymffurfiaeth undebau credyd, mae'n parhau'n wir fod llawer o amrywiaeth ar draws undebau credyd a bod cwmpas i wella llywodraethiant undebau credyd ymhellach mewn llawer o achosion. Mae hefyd yn wir fod gwahaniaeth amlwg yn parhau yng ngweithgareddau busnes a dulliau gweithredu undebau credyd a gefnogir.

Argymhelliad 4: Argymhellwn fod y prosiect drwy ei ddarparu contract, TSIB, yn parhau i ddarparu cefnogaeth llywodraethiant a chydymffurfiaeth i undebau credyd ar gyfer gweddill cyfnod y prosiect, ac y dylid rhoi mwy o ffocws ar recriwtio aelodau newydd i Fyrddau undebau credyd a hwyluso cynllunio olyniaeth o fewn yr undebau credyd hynny sydd angen cefnogaeth o'r fath ac a all weld y gwerth mewn derbyn hynny.

Er bod yn sicr enghreifftiau o undebau credyd a ariannir gan SGEI a allodd wneud cynnydd tuag at ddod yn sefydliadau hunangynhaliol, gan bennaf mae cydnabyddiaeth eang y bydd y ddarpariaeth gan yr undebau credyd hynny sy'n goroesi nad ydynt yn derbyn cyllid ar ôl 2013 yn crebachu (mewn rhai achosion yn eithaf sylweddol) ac mewn achosion eraill bydd dileu'r cyllid yn arwain at dranc nifer fach o undebau credyd. Y mater sylfaenol yw na chafodd cyllid SGEI o reidrwydd ei gyfeirio a'i ddefnyddio i drawsnewid undebau credyd yn y ffordd hon drwy, er enghraifft, eu cefnogi i ehangu i farchnadoedd mwy hyfyw yn fasnachol. Os dilynir yr amcan hwn, rydym o'r farn fod angen i'r prosiect gefnogi undebau credyd i arallgyfeirio eu sylfaen cwsmeriaid dros y flwyddyn sydd ar ôl er mwyn gwella eu cyfle o wella cynaliadwyedd undebau credyd ar ôl 2013.

Argymhelliad 5: Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r undebau credyd hynny a gyflawnodd eu targedau cyllid contract SGEI i ddenu sylfaen aelodaeth ehangach a chynyddu eu portffolio benthyca er mwyn cynyddu eu gallu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Dylid hefyd annog yr undebau credyd hyn i ganolbwyntio ar gadw eu haelodau presennol.

Er y dechreuwyd gweithgaredd hyrwyddo a marchnata'r prosiect rywfaint yn hwyr yn y dydd, credwn y bu'r gweithgareddau a wnaethpwyd yn ystod 2012 yn addas ac yn rhesymol effeithiol wrth helpu i godi proffil y mudiad yng Nghymru. Mae angen yn awr i'r gweithgareddau hyn gael eu cynnal ar sail barhaus os yw i fod yn realistig sicrhau newid amlwg ym mhroffil undebau credyd.

Argymhelliad 6: Argymhellwn fod y prosiect yn ailystyried ei ddarpariaeth marchnata er mwyn canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth pobl o undebau credyd ac ehangu ei farchnata i ddenu sylfaen aelodaeth ehangach i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. Argymhellwn hefyd ystyried cryfhau'r brand cyffredin undebau credyd ar gyfer Cymru.

Canfu ein gwerthusiad y bu twf iach mewn aelodaeth undebau credyd a hefyd y sylfaen asedau yng Nghymru a dengys adborth gan undebau credyd y medrir priodoli llawer o hyn i gefnogaeth cyllid SGEI gan na allai undebau credyd fod wedi datblygu yn y ffordd hon heb yr adnoddau ychwanegol i gyflogi staff. Dengys ein dadansoddiad o berfformiad arianol undebau credyd fod undebau credyd yn dal yn wan o ran eu strwythurau ariannol (benthyciadau net i gyfanswm asedau), yn dal i fod â chostau gweithredu uchel iawn ac yn parhau i gadw mwy o gronfeydd arian wrth gefn nag a ddymunir er y bu gwelliannau a hefyd waethygu mewn darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ar draws y sector.

Argymhelliad 7: Argymhellwn fod y prosiect yn darparu cefnogaeth i'r sector undebau credyd i drin ei wendidau perfformiad allweddol ariannol cyfredol, yn neilltuol am ddyledion drwg a gostwng costau gweithredu. Mae cwmpas i ymchwilio ymhellach rannu adnoddau a chostau gweithredu ar draws undebau credyd a gefnogir.

Un o uchafbwyntiau allweddol y prosiect fu'r ffordd y mae wedi cefnogi undebau credyd i gyflwyno cynlluniau cynhwysiant ariannol a recriwtio bron i 11,000 o aelodau newydd sydd wedi eu hallgau'n ariannol ledled Cymru. Priodolir llawer o'r llwyddiant hwn i'r newidiadau a wnaed i gytundebau contract undebau credyd hanner ffordd drwy gam dau a'r pwyslais cynyddol a roddwyd ar fonitro perfformiad undebau credyd yn y cyswllt hwn. Mae'r prosiect eisoes wedi cyflawni un o'i dargedau WEFO mwyaf uchelgeisiol a dylid ei longyfarch ar hyn. Fodd bynnag nid yw pob undeb credyd yn dangos yr un lefel o lwyddiant wrth gyrraedd aelodau newydd sydd wedi eu hallgau'n ariannol ac mae nifer o wersi i'w dysgu o'u profiadau yng ngweithgareddau'r dyfodol - credwn y dylai'r perfformiad contractiol cyfredol gael ei ystyried mewn unrhyw benderfyniadau a wnaiff Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu undebau credyd yn y dyfodol.

Atodiad 1: Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy

Enw	Sefydliad
Rhanddeiliaid	
Stephen Chamberlain	Llywodraeth Cymru
Bill Hudson	TSIB
Ceryse Fear	TSIB
John Chell	TSIB
Rhidian Morgan	Llywodraeth Cymru (ar secondiad i TSIB)
Adam Chown	Canolfan Cydweithredol Cymru
Teej Dew	Canolfan Cydweithredol Cymru
Steve Dobson	Canolfan Cydweithredol Cymru
Lee Phillips	Gwasanaeth Cyngor ar Arian
Delyth Morgan	Cyngor Ar Bopeth Cymru
Alun Taylor	Cadeirydd Cangen De Cymru, ABCUL (hefyd yn Gadeirydd Undeb Credyd Caerdydd)
Sharon Angus Crashaw	Cadeirydd ABCUL a Changen Gogledd Cymru
Steve Hay	Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon, Safonau Masnach
Russell Smith	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Undebau Credyd Rheoli	
Just (Undeb Credyd Swydd Amwythig, Telford a Wrekin)	
Undeb Credyd Bryste	
BAG (Undeb Credyd Bargoed, Aberbargoed a Gilfach)	
Ymwelwyd â'r Undebau Credyd canlynol:	
Save Easy	
Undeb Credyd Bwrdeisdref Merthyr Tudful	
Undeb Credyd Casnewydd	
Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot	
Undeb Credyd Dragon Savers	
Undeb Credyd Gogledd Cymru	
Undeb Credyd Haven	
Undeb Credyd Islwyn	
Hwyluswyd trafodaeth grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr o'r Undebau Credyd canlynol:	
Undeb Credyd Casnewydd	
Undeb Credyd Gateway	
Undeb Credyd Laser	
Undeb Credyd Pen-y-bont ar Ogwr	